Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
36/2024
DYDDIAD CYHOEDDI:
21/05/2024

# Ymchwil am Grant Cymorth Ychwanegol y Cynnig Gofal Plant i Gymru: adroddiad terfynol

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-120-0

Ymchwil i Grant Cymorth Ychwanegol y Cynnig Gofal Plant i Gymru: adroddiad terfynol

Aoife Ni Luanaigh, Maya Agur, Caitlin Webb, Daisy Woods, a Sophie Harvey-Rich / IFF Research

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, nid barn Llywodraeth Cymru o anghenraid

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Enw: Dr Jack Watkins
Adran: Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn:
E-bost: ymchwil.plantatheuluoedd@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**

Rhestr ffigurau .......... 2
Crynodeb Gweithredol .......... 3
1. Cyflwyniad a chefndir .......... 9
2. Methodoleg .......... 12
3. Ymwybyddiaeth ac amlygrwydd ADY .......... 19
4. Ymwybyddiaeth o'r ASG .......... 23
5. Gwariant ar ASG .......... 29
6. Ar beth y gwariwyd yr ASG .......... 38
7. Y broses ymgeisio am yr ASG .......... 45
8. Y canlyniadau i ddarparwyr, plant, a'u teuluoedd .......... 54
9. Casgliadau .......... 61
Atodiad A – Arolwg o ddarparwyr gofal plant .......... 65
Atodiad B – Arweiniad testun i awdurdodau lleol .......... 86
Atodiad C – Arweiniad testun i ddarparwyr gofal plant .......... 92
Atodiad D – Arweiniad testun i deuluoedd .......... 98

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 2.1 Trosolwg o linell amser yr ymchwil ..................... 13
Ffigur 3.1. Hyder y staff o ran gweithio gyda phlant sydd ag ADY, o ran adnabod plant gydag ADY ac o ran gwybod pa gamau i’w cymryd ..................... 19
Ffigur 3.2. Y ffyrdd mwyaf cyffredin oedd gan staff o adnabod plant gydag ADY posibl ...... 21
Ffigur 3.3. Y rhwystrau mwyaf cyffredin a wynebir wrth adnabod plant gydag ADY ............ 22
Ffigur 4.1. Ymwybyddiaeth o’r ASG fesul math o ddarparydd ..................... 24
Ffigur 4.2. Y mathau o gymorth y mae lleoliadau ei angen y gall ASG dalu amdano........... 26
Ffigur 5.1 Gwariant ASG yn 2021/22 yn ôl nifer y plant a gefnogwyd yn uniongyrchol gan yr ASG yn 2022/23 ..................... 30
Ffigur 5.2 Nifer y plant yr oedd awdurdodau lleol yn eu cefnogi’n uniongyrchol drwy’r ASG yn 2022-23 ..................... 31
Ffigur 7.1: Y broses gam wrth gam ar gyfer cael yr ASG ..................... 46

# Crynodeb Gweithredol

Mae’r Cynnig Gofal Plant i Gymru’n darparu hyd at 30 awr o addysg gynnar a gofal plant (i rieni cymwys) wedi eu hariannu gan y llywodraeth i blant tair a phedair oed am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Mae’r Grant Cymorth Ychwanegol (ASG) yn darparu cyllid i helpu i sicrhau bod plant cymwys sydd ag anghenion cymorth ychwanegol yn gallu cyrraedd yr elfen gofal plant o’r Cynnig Gofal Plant yn yr un ffordd â phlant cymwys eraill.

Ym mis Mai 2023, comisiynwyd IFF Research gan Lywodraeth Cymru i wneud gwaith ymchwil am yr ASG, er mwyn:

- Casglu tystiolaeth am ffactorau sy’n cyfrannu at y galw am yr ASG.
- Cynyddu dealltwriaeth am beth y mae’r ASG yn cael ei ddefnyddio (h.y. pa gymorth sy’n cael ei ariannu)
- Mapio’r prosesau i wneud cais am yr ASG a ddatblygwyd ac a ddefnyddir gan awdurdodau lleol a darparwyr gofal plant.
- Casglu adborth gan awdurdodau lleol, darparwyr blynyddoedd cynnar a theuluoedd am effeithiolrwydd y grant a’i effaith arnynt.

Gwnaethpwyd yr ymchwil rhwng mis Mai 2023 a mis Chwefror 2024. Defnyddiwyd dulliau cymysg, yn cynnwys adolygiad o wybodaeth rheoli, arolwg ar-lein gyda darparwyr gofal plant, a chyfweliadau manwl gyda rhanddeiliaid, darparwyr gofal plant, awdurdodau lleol a rhieni.

## Ymwybyddiaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol

Roedd darparwyr yn teimlo’n hyderus yn gofalu am blant gydag ADY: roedd pedwar ymhob pump (82%) o ddarparwyr yn hyderus ynghylch adnabod plant oedd efallai ag ADY, ychydig dros ddwy ran o dair (70%) yn gwybod pa gamau i’w cymryd er mwyn cael asesiad ADY ffurfiol i blentyn, ac roedd pedwar ymhob pump yn hyderus ynghylch gweithio gyda phlant sydd ag ADY (81%).

Roedd oddeutu saith ymhob deg o ddarparwyr (71%) wedi sôn am wynebu rhwystrau sy’n atal pobl rhag adnabod plant gydag ADY. Ymysg y rhwystrau mwyaf cyffredin roedden nhw’n eu hwynebu oedd y ffaith bod oed y plentyn yn ei gwneud hi’n anoddach i adnabod y cyflwr (42%), asiantaethau a gwasanaethau eraill heb basio digon o wybodaeth ymlaen (40%), diffyg ymysylltiad â rhieni (36%), a difrifoldeb y cyflwr (20%).

Roedd gofalwyr plant yn fwy tebygol o beidio bod â phlant gydag ADY yn eu lleoliad o'i gymharu â'r holl fathau eraill o leoliadau.

## Ymwybyddiaeth am y Grant Cymorth Ychwanegol

Roedd ymwybyddiaeth am yr ASG ymysg darparwyr yn weddol isel. Roedd tua dwy ran o dair (67%) o ddarparwyr erioed wedi clywed am yr ASG, roedd tua un ymhob pump (19%) wedi clywed am yr ASG ond erioed wedi gwneud cais amdano, ac roedd ychydig yn llai nag un ymhob pump (15%) wedi clywed amdano ac roedden nhw yn y broses o wneud cais amdano neu wedi gwneud cais amdano yn barod. Gofalwyr plant oedd leiaf tebygol o fod wedi clywed am yr ASG, a'r lleoliadau mwy oedd yn fwy tebygol o wneud cais.

Soniodd awdurdodau lleol am gyfyngu ar hysbysebu'r ASG yn eang er mwyn osgoi codi disgwyliadau rhieni a chyrraedd y capasiti cyllido. O ganlyniad, roedd ymwybyddiaeth am yr ASG ymysg teuluoedd oedd yn derbyn y grant yn isel iawn, sy'n awgrymu bod yr ymwybyddiaeth ymysg teuluoedd nad ydynt yn derbyn y grant yn llawer is. Roedd rhieni'n teimlo bod angen i'r llwybr ymgeisio am ASG fod yn llawer mwy eglur ac y dylai gael ei hysbysebu'n ehangach, ac y dylid cael mwy o gefnogaeth i rieni drwy gydol y broses.

Efallai nad yw darparwyr a theuluoedd yn ymwybodol o'r opsiwn o gael cymorth ychwanegol drwy'r ASG ac, o ganlyniad, efallai fod plant a allai gael eu cefnogi i gael gafael ar ofal plant drwy'r Cynnig Gofal Plant yn colli cyfle.

## Y galw am ASG a'i wariant

Yn 2021-22[1] gwariodd Llywodraeth Cymru tua £1.1m drwy'r ASG ar draws bob un o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Amrywiodd y gwariant gan awdurdodau lleol o tua £7,000 i tua £180,000, gyda gwariant (cymedrig) cyfartalog fesul awdurdod lleol o tua £49,000. Roedd gwariant yr ASG yn tueddu i gyfateb i nifer y plant yr oedd yr awdurdod lleol wedi'u cefnogi drwy'r grant, ac roedd gwariant uwch yn gysylltiedig â nifer uwch o blant yn derbyn cefnogaeth.

Yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf (Medi 2022-Awst 2023), roedd cyfanswm o 358 o blant yn cael eu cefnogi'n uniongyrchol drwy'r ASG ledled Cymru. Ar gyfartaledd, roedd pob awdurdod lleol yn cefnogi tua 16 o blant. Roedd hyn yn amrywio o 0 i 47 o blant yn dibynnu ar yr ardal.

[1] 2021-22 yw'r flwyddyn ariannol olaf i ni gael data cyflawn am wariant ASG ar ei chyfer.

Roedd yr awdurdodau lleol yn glir ynglŷn â diben yr ASG. Fodd bynnag, roedd y darlun yn gymysg o ran y lefelau o ddealltwriaeth oedd gan bobl am y cwestiwn a ellid ymgeisio am ragor o gyllid lle'r oedd y galw'n gofyn amdano. Arweiniodd hyn at sefyllfa lle'r oedd rhai meysydd yn rheoli'r mynediad at y grant yn dynn er mwyn osgoi gorwariant ac yn dangos fod rhai plant cymwys yn colli allan ar dderbyn cymorth drwy'r ASG.

Gwelodd yr ymchwil fodel cyffredin o brosesu ceisiadau am y grant. Defnyddiwyd y cyllid ASG yn fwyaf cyffredin i gynyddu'r nifer o staff mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, i gynyddu cymarebau plant-staff lle bo'r angen ac i sicrhau diogelwch yr holl blant yn y lleoliad. Hefyd, defnyddiwyd yr arian grant ar gyfer hyfforddiant, i wella sgiliau staff mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ar gyfer gweithio gyda phlant sydd ag amrywiol ADY, i brynu offer, ac mewn nifer fach o awdurdodau lleol, i ariannu rôl cydgysylltydd ADY, naill ai'n rhannol neu'n llawn.

Roedd awdurdodau lleol o'r farn bod y galw am yr ASG yn cynyddu'n gyffredinol. Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod y tueddiadau hyn yn y galw a'r defnydd a wneir o'r ASG wedi golygu bod rhai o'r lleoliadau wedi dod yn adnabyddus am gefnogi plant gydag ADY gan arwain at grynodiad o blant gydag ADY yn y lleoliadau hyn. Fodd bynnag, soniodd rhai darparwyr am broblemau gyda recriwtio staff cymwysedig, a chostau ychwanegol am recriwtio a chyflogi nad ydynt wedi eu cynnwys yn yr ASG.

Roedd dau ddull strategol gwahanol gan awdurdodau lleol o wario eu dyraniad ASG: dyrannu'r gyllideb gyfan i gefnogi plant unigol neu ddyrannu rhywfaint o'r gyllideb i dalu am Gydgysylltydd ADY hefyd. Roedd awdurdodau lleol yn gallu defnyddio'r ASG yn hyblyg, i ateb eu hanghenion a chyfateb i'w cyd-destun lleol, ac roedd yn ymddangos fod hyn yn effeithiol. Ond, mewn rhai achosion, roedd Awdurdodau Lleol yn defnyddio panelau amlasiantaeth i ystyried ADY fel mecanwaith i ddosbarthu'r ASG, gan olygu y byddai rhai plant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol ond sydd heb ADY penodol yn gallu colli allan.

## Canlyniadau

Mae awdurdodau lleol wedi croesawu'r ASG fel adnodd angenrheidiol iawn i helpu gyda'u hymateb i'r galw cynyddol am gymorth ychwanegol i blant gydag ADY. Mae awdurdodau lleol wedi buddsoddi llawer iawn o feddwl yn y gwaith o ddatblygu prosesau i wneud defnydd effeithiol o'r grant a'i integreiddio yn y gyllideb gyffredinol a ddyrannwyd ar gyfer cymorth ADY yn eu meysydd perthnasol.

Yn gyffredinol, soniodd darparwyr a theuluoedd fod cyllid yr ASG wedi cael effaith gadarnhaol ar y plant yr oedd yn eu cefnogi, ac i raddau ychydig bach yn is, ar eu teuluoedd. Ymhob achos, dywedwyd fod plant yn dod yn eu blaenau'n sylweddol yn eu datblygiad yn dilyn cyflwyno cymorth ychwanegol, gan ganiatáu iddynt gyrraedd cerrig milltir allweddol mewn llawer o achosion. Roedd yr effaith ar ddarparwyr yn fwy cymysg, gyda llawer o ddarparwyr yn honni y bydden nhw wedi ceisio darparu cymorth i'r plant beth bynnag. Fodd bynnag, roedd perygl y byddai'r cymorth hwn o ansawdd is heb ariannu ychwanegol.

Mae'r dystiolaeth mewn perthynas â gwariant a lefelau o foddhad yn awgrymu, yn gyffredinol, bod gweithrediad yr ASG wedi bod yn effeithiol i ryw raddau. Lle gwelwyd ADY, mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol a darparwyr blynyddoedd cynnar wedi gweithio'n effeithiol â'i gilydd, gan ddod i ddealltwriaeth ynglŷn â pha dystiolaeth oedd ei hangen ar gyfer y cais, a sut i gael gafael arni, a chytuno ar ba dystiolaeth i'w rhoi ar waith a dyrannu'r cyllid ar gyfer rhoi'r gefnogaeth yn ei lle. Dywedwyd bod y mwyafrif llethol o geisiadau ASG yn llwyddiannus. Roedd teuluoedd a darparwyr yn fodlon ar y cyfan ac wedi sôn am newidiadau cadarnhaol ar gyfer y plentyn, y teulu a'r lleoliad. Ond, gallai defnyddio prosesau a phanelau ADY i ystyried ASG olygu bod rhai o'r plant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol (ond sydd heb ADY wedi ei bennu) yn colli allan ar gyllid ASG.

Roedd nifer fechan o ddarparwyr yn anfodlon gyda hyd a chymhlethdod y broses ymgeisio i'w hawdurdod lleol tra bod rhai awdurdodau lleol yn teimlo bod tynnu rolau awdurdodau 'darparu' ac 'ymgysylltu' yn gallu helpu i symleiddio a llyfnhau'r broses.

## Heriau a phroblemau

Soniodd awdurdodau lleol am orfod llywio drwy system gymhleth o ffrydiau ariannu, yr oedd yr ASG yn un ohonynt. Roedd hyn yn ychwanegu cymhlethdod i'r broses ariannu, ac yn achosi risg y byddai opsiynau ariannu'n cael eu hanwybyddu, a allai olygu bod teuluoedd cymwys yn colli cyfle.

Roedd lefelau dealltwriaeth y strwythurau dyrannu ASG yn amrywio rhwng ac o fewn awdurdodau lleol. Roedd rhai awdurdodau lleol yn ymwybodol y gallent gyflwyno achos busnes dros gynyddu eu cyllid, os byddai angen iddynt wneud hynny, ond doedd eraill ddim. Mae hyn yn golygu nad oedd awdurdodau lleol bob amser yn defnyddio'r ffrwd ariannu ASG yn llawn i ateb eu hanghenion.

Roedd lefelau amrywiol o ymwybyddiaeth o’r ASG ymysg darparwyr a theuluoedd. Roedd adborth gan awdurdodau lleol yn awgrymu bod rhywfaint o hyn yn fwriadol. Fodd bynnag, roedd hi’n ymddangos bod ymwybyddiaeth yn amrywio yn dibynnu ar y math o leoliad gyda lleoliadau bach, preifat a gofal plant bach yn tueddu bod leiaf ymwybodol o’r grant. Mae hyn yn golygu bod plant a theuluoedd i’w cael o bosib sy’n colli allan am nad ydynt yn ymwybodol o’r opsiwn i gael cyllid cymorth drwy ASG. Yn ogystal, gallai rhai darparwyr gael trafferth cefnogi plant sydd ag anghenion am gymorth ychwanegol mewn ffordd briodol heb arian yr ASG.

Roedd y mwyafrif o geisiadau a wnaed i’r ASG ar gyfer plant oedd yn derbyn gofal plant yn barod, ond a oedd angen cymorth ychwanegol. Mewn rhai achosion, roedd hi’n hysbys bod gan y plant hyn ADY cyn iddyn nhw ddechrau mynd i’r lleoliad (neu cyn iddyn nhw ddod yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant; hynny yw, cyn iddyn nhw droi’n dair oed), ond ni ddechreuodd y trafodaethau ynglŷn â pha gymorth yr oedd angen ei drefnu a’r cais am gyllid nes iddyn nhw ddod yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant.

Mae’r heriau a’r problemau yma’n awgrymu hyn: mae’n ymddangos bod gweithrediad yr ASG wedi bod yn effeithiol i raddau mawr, ond lle gweithredwyd yr ASG yn llwyddiannus, roedd yn tueddu i ddibynnu ar lefelau uchel o ymwybyddiaeth ymysg darparwyr ac ar gael staff gwybodus a hyderus i arwain y broes, gan adael bylchau sylweddol mewn mannau eraill.

## Argymhellion

Efallai y bydd Llywodraeth Cymru eisiau ystyried nifer o weithredoedd a chamau i’w cymryd i wella cynllun a gweithrediad yr ASG wrth symud ymlaen. Dyma’r argymhellion (wedi eu crynhoi):

**Argymhelliad 1:** Efallai y bydd Llywodraeth Cymru eisiau adolygu’r arweiniad cyfredol ac ystyried addasiadau fel ei fod yn dangos yn fwy eglur pa bethau y gellir defnyddio’r ASG i’w hariannu. Yn arbennig, dylid bod yn fwy eglur ynglŷn â’r opsiwn i awdurdodau lleol ofyn am ariannu ychwanegol, a dylid rhannu gwybodaeth ynglŷn â sut i wneud achos busnes ar gyfer ceisio cynnydd yn nyraniad yr ariannau.

**Argymhelliad 2:** Gallai Llywodraeth Cymru ystyried gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu ymgyrchoedd cyfathrebu a gwybodaeth ar y cyd i ddarparwyr a theuluoedd er mwyn sicrhau bod pawb sy’n gymwys ac sydd angen cymorth ASG yn gallu cael gafael arno.

**Argymhelliad 3:** Dylid rhoi sylw penodol i gynyddu ymwybyddiaeth gofalwyr plant a lleoliadau bach nas cynhelir.

**Argymhelliad 4:** Gallai awdurdodau lleol weithio gyda darparwyr ymhob sector (blynyddoedd cynnar ac ysgolion) a theuluoedd i ganfod anghenion cymorth ychwanegol ar gam cynharach. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru eisiau ystyried ffyrdd o weithio gydag awdurdodau lleol i hyrwyddo cydweithio ar draws y sectorau a chyflwyno gwell cynllunio, yn cynnwys rhannu gwybodaeth yn well a chael gwell prosesau atgyfeirio.

**Argymhelliad 5:** Mae data cyfyngedig i'w gael am y nifer o blant a lleoliadau sy'n derbyn arian ASG. Mae hyn yn golygu bod rheoli'r grant yn heriol ar y lefel genedlaethol ac mae'n golygu nad yw'n bosibl asesu canlyniadau'r grant a'i effeithiau ar y plant, y teuluoedd a'r sector yn fanwl gywir. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru eisiau ystyried datblygu a gweithredu proses a thempledi gweithdrefn gyson a systematig i gasglu gwybodaeth fwy gronynnog am reolaeth y grant ac i awdurdodau lleol adrodd amdanynt i Lywodraeth Cymru.

# 1. Cyflwyniad a chefndir

1.1 Mae’n ddymuniad gan Lywodraeth Cymru sicrhau bod gofal plant yn fforddiadwy ac ar gael yn eang. Ers 2017, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu hyd at 30 awr o ofal plant ac addysg gynnar wedi’i ariannu gan y llywodraeth (i rieni cymwys) ar gyfer plant tair a phedair oed am hyd at 48 wythnos y flwyddyn drwy’r Cynnig Gofal Plant i Gymru. Ochr yn ochr â’r cynnig hwn, sefydlwyd y Grant Cymorth Ychwanegol (ASG) fel ffrwd ariannu ar wahân lle gall awdurdodau lleol fanteisio ar gymorth i sicrhau fod plant cymwys sydd ag anghenion cymorth ychwanegol yn gallu cael gafael ar elfen gofal plant y Cynnig Gofal Plant yn yr un ffordd â phlant cymwys eraill.

1.2 Gweinyddir yr ASG gan ddefnyddio yr un ôl troed â’r Cynnig Gofal Plant i Gymru ehangach, lle mae 10 awdurdod lleol wedi cymryd rôl Awdurdodau Darparu (sy’n gyfrifol am brosesu ceisiadau a thaliadau) ac mae 12 awdurdod lleol wedi cymryd rôl yr Awdurdodau Ymgysylltu (sy’n gyfrifol am hyrwyddo’r Cynnig Gofal Plant i rieni a darparwyr cymwys). Wrth weinyddu’r ASG, mae’r ‘awdurdodau darparu’ yn gyfrifol am fonitro gwariant yr ASG ac am brosesu hawliadau ariannu gyda Llywodraeth Cymru iddyn nhw eu hunain a hefyd ar ran yr ‘awdurdodau ymgysylltu’ y maen nhw’n eu cefnogi.

1.3 Mae arweiniad ASG Llywodraeth Cymru[2] i awdurdodau lleol yn nodi y dylid defnyddio’r cyllid i dalu am:

- Hyfforddiant i ddarparwyr am anghenion penodol a’r ddarpariaeth gofal i blentyn penodol sydd ag anghenion ychwanegol
- Staff ychwanegol i ddarparu cymorth arbenigol i blant sydd ag anghenion mwy difrifol
- Dwylo i helpu i gynyddu’r cymarebau staff-plant mewn lleoliad sydd â phlentyn unigol neu grŵp o blant sydd angen cymorth ychwanegol
- Offer yn cynnwys defnyddiau dysgu ychwanegol neu offer chwarae arbenigol
- Addasiadau ffisegol i leoliadau, yn cynnwys addasiadau ar gyfer plant sydd ag anghenion mynediad arbennig a/neu i greu mannau penodol i blant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol.

[2] Y cynnig gofal plant i Gymru: canllawiau i awdurdodau lleol (llyw.cymru)

1.4 Mae’r canllawiau hefyd yn nodi y gall awdurdodau lleol gyflwyno achos busnes ar gyfer cael caniatâd i ddefnyddio’r arian i dalu costau gweinyddol, fel hurio staff arbenigol ychwanegol i wneud asesiad neu ddiagnosau.

1.5 Ym mis Mai 2023, cafodd IFF Research ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i wneud ymchwil i’r ASG. Mae gan yr ymchwil bedwar prif nod:

- Casglu tystiolaeth am ffactorau sy’n cyfrannu at y galw am yr ASG.
- Cynyddu dealltwriaeth ynglŷn â’r hyn y defnyddir yr ASG ar ei gyfer (h.y. pa gymorth sy’n cael ei ariannu drwy’r grant).
- Mapio’r prosesau i wneud cais am ASG a ddatblygwyd ac a ddefnyddir gan awdurdodau lleol a darparwyr gofal plant.
- Casglu adborth gan awdurdodau lleol, darparwyr blynyddoedd cynnar a theuluoedd am effeithiolrwydd y grant a’i effaith arnynt.

1.6 Gwnaethpwyd yr ymchwil rhwng Mai 2023 a Chwefror 2024 ac roedd yn defnyddio dulliau cymysg. Mae’r adroddiad hwn yn dod â chanfyddiadau’r ymchwil at ei gilydd ac mae’n cynnwys naw pennod:

**Pennod un** - Cyflwyniad.

**Pennod dau** - Methodoleg – yn darparu manylion y dull ymchwilio a phroffil y cyfranogwyr.

**Pennod tri** - Lefel yr ymwybyddiaeth am ADY – mae hwn yn nodi’r dystiolaeth am y lefelau o ymwybyddiaeth ac eglurder ynglŷn ag ADY a phrosesau ADY ymysg darparwyr blynyddoedd cynnar.

**Pennod pedwar** - Lefel yr ymwybyddiaeth am ADY – mae hwn yn nodi’r dystiolaeth am y lefelau o ymwybyddiaeth ac eglurder ynghylch ASG ymysg awdurdodau lleol, darparwyr blynyddoedd cynnar a theuluoedd.

**Pennod pump** – Gwariant ASG – yn cynnwys sut y cafodd ariannu ei ddyrannu i awdurdodau lleol.

**Pennod chwech** - Defnyddiau ASG – yn trafod i beth yr oedd arian ASG yn cael ei ddefnyddio a thrafod patrymau’r defnydd.

**Pennod saith** – Y broses ymgeisio am yr ASG – yn rhoi amlinelliad o’r broses ymgeisio ac yn trafod sylwadau rhanddeiliaid am effeithiolrwydd y broses.

**Pennod wyth** – Canlyniadau’r ASG – yn cynnwys canlyniadau’r ASG i: blant gydag ADY; y grŵp ehangach o blant yn y lleoliadau blynyddoedd cynnar; teuluoedd plant gydag ADY; a darparwyr blynyddoedd cynnar.

**Pennod naw** – Casgliadau ac ystyriaethau – yn nodi casgliadau'r ymchwil ac yn cynnig argymhellion am welliant i'w hystyried wrth weithredu'r ASG yn y dyfodol.

# 2. Methodoleg

2.1 Roedd yr ymchwil yn defnyddio dulliau cymysg, gan gyfuno dulliau ymchwil ansoddol a meintiol. Mae rhagor o fanylion am fethodoleg i'w cael yn y bennod hon, Darperir y deunyddiau ymchwil a ddefnyddiwyd yn yr atodiadau yng nghefn yr adroddiad hwn.


## Trosolwg o gynllun yr ymchwil

2.2 Roedd dull tri cham i'r ymchwil hwn; cwmpasu; gwaith maes; a dadansoddi ac adrodd. Cafwyd y cam cwmpasu ym mis Medi 2023 ac roedd yn cynnwys adolygiad pen desg o'r ddogfenaeth a'r data sy'n berthnasol i'r Cynnig Gofal Plant i Gymru a'r Grant Cymorth Ychwanegol (ASG) ochr yn ochr â chyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol yn Llywodraeth Cymru. Bwydodd canfyddiadau'r cam hwn i mewn i gynllun y deunyddiau ymchwil a ddefnyddiwyd yn ystod cam y gwaith maes.

2.3 Roedd y gwaith maes yn cynnwys arolwg o ddarparwyr gofal plant (n=259), cyfweliadau gydag arweinwyr gofal plant a chydgysylltwyr ADY ymhob awdurdod lleol yng Nghymru (n=44) a chyfweliadau gyda darparwyr gofal plant (n=8) a theuluoedd (n=10) oedd wedi derbyn y grant. Fel y gwelwch yn ffigur 2.1, cafwyd gwaith maes rhwng mis Medi 2023 a Rhagfyr 2023 gyda'r arolwg yn rhedeg yn gyfochrog â chyfweliadau manwl. Roedd y darparwyr hynny a gwblhaodd yr arolwg ac a gytunodd i ni gysylltu â nhw ar gyfer rhagor o ymchwil wedi eu cynnwys yn y sampl ar gyfer y cyfweliadau manwl gyda darparwyr. Cafwyd y gwaith dadansoddi a llunio adroddiadau ym misoedd Ionawr a Chwefror 2024.

2.4 Roedd deunyddiau gwaith maes ar gyfer pob cam ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a chynigiwyd yr opsiwn i'r ymatebwyr gwblhau'r arolwg a gwneud cyfweliadau yn y naill iaith neu'r llall. Cafodd y cyfweliadau i gyd eu gwneud ar-lein ar MS Teams yn Saesneg neu'n Gymraeg (yn dibynnu ar ddewis yr ymatebwr) ac, os oedd ymatebwyr yn cydsynio, cawsent eu cofnodi at ddibenion cymryd nodiadau. Cafodd canllawiau testun eu llunio cyn y cyfweliadau i sicrhau fod pob maes testun allweddol a chwestiynau wedi eu cynnwys yn systematig ac yn gyson ar draws y cyfweliadau i gyd.

**Ffigur 2.1 Trosolwg o linell amser yr ymchwil**




## Cam un: Cwmpasu

### *Cyfweliadau â Rhanddeiliaid*

2.5 Cafwyd dau gyfweliad wedi paru gyda phedwar rhanddeiliad o Lywodraeth Cymru. Digwyddodd pob cyfweliad gyda chydweithwyr o Lywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am wahanol agwedd o'r Cynnig Gofal Plant i Gymru a darpariaeth neu faes polisi'r Grant Cymorth Ychwanegol. Parhaodd y cyfweliadau am tua awr ac roeddent yn canolbwyntio ar amcanion yr ASG, lefelau a phatrymau'r galw, y mathau o gymorth a ddarparwyd a sut mae'r grant yn cael ei weinyddu a'i reoli.

2.6 Roedd y cyfweliadau hyn gyda'r rhanddeiliaid o gymorth i adeiladu gwybodaeth am yr ASG ac yn bwydo i mewn i ddatblygiad arolwg y darparydd a'r offer ymchwilio ar gyfer y cyfweliadau gydag awdurdodau lleol, darparwyr a theuluoedd.

### *Data Monitro*

2.7 Adolygwyd y data a ddaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhan o'r cam cwmpasu i adnabod y galw am yr ASG a'r defnydd a wneir ohono. Roedd y data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru'n cynnwys:

- Data o Adroddiad Monitro Misol y Cynnig Gofal Plant i Gymru (yn cynnwys data ar lefel yr awdurdod lleol yn ymwneud â'r nifer o ddarparwyr sydd wedi eu cofrestru i ddarparu a'r nifer o blant sydd wedi defnyddio'r Cynnig Gofal Plant ers 2017).
- Manylion y gwariant ASG ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2020/21 a 2021/22 ar gyfer pob awdurdod lleol.

2.8 Darparwyd gwybodaeth am wariant ASG yn fisol ar lefel yr awdurdod lleol felly nid oedd yn bosibl adnabod unrhyw batrymau yn y swm a ddyranwyd i ddarparwyr neu blant unigol. Hefyd, nid oedd yn bosibl canfod ar ba fathau o gymorth yr oedd yr ASG wedi cael ei wario bob mis.

2.9 I ddarparu gwybodaeth ychwanegol am batrymau gwariant, cysylltwyd ag Arweinwyr Gofal Plant ymhob Awdurdod Lleol ar yr e-bost a gofynnwyd iddynt roi gwybodaeth am y nifer o blant oedd wedi derbyn cyllid ASG ym mis Rhagfyr 2023 (fel mis sampl) a'r nifer o blant a lleoliadau oedd wedi derbyn cyllid ASG yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf (Medi 2022 hyd Awst 2023). Derbyniwyd y wybodaeth hon ar gyfer 21 o'r 22 Awdurdod Lleol.

## Cam dau: Gwaith maes

### *Arolwg o Ddarparwyr Gofal Plant*

2.10 Gwnaethpwyd arolwg o ddarparwyr gofal plant i fesur hyder y darparydd o ran adnabod a chefnogi ADY, gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r ASG, a phrofiad o'r broses ymgeisio (i'r rhai a wnaeth gais). Hefyd, gofynnodd yr arolwg gwestiynau am ddefnyddio'r ASG ac effaith derbyn yr ariannu.

2.11 Gweinyddwyd yr arolwg ar-lein ac roedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Anfonwyd dolen yr arolwg ar-lein at tua 1,660 o ddarparwyr gofal plant yng Nghymru oedd wedi eu cofrestru gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant i Gymru. Anfonwyd y gwahoddiadau cyntaf i gymryd rhan yn yr arolwg ar yr e-bost gan Lywodraeth Cymru ar 15 Medi 2023. Anfonwyd dwy neges atgoffa ar yr e-bost ym misoedd Hydref a Thachwedd cyn i'r arolwg gau ar 8 Rhagfyr 2023. Hefyd, gwahoddwyd awdurdodau lleol i rannu dolen yr arolwg ymysg darparwyr oedd wedi cael y grant.

2.12 Ar ddiwedd yr arolwg, gofynnwyd i ddarparwyr oedd wedi derbyn ariannu ASG a fydden nhw'n hapus i rywun gysylltu â nhw eto i gymryd rhan mewn cyfweliad ansoddol. Cysylltwyd eto â'r ymatebwyr hynny a gydsyniodd ac anfonwyd e-bost atynt yn eu gwahodd i gael cyfweliad.

2.13 Ymatebodd cyfanswm o 259 o ddarparwyr gofal plant i'r arolwg. Pan ofynnwyd pa fathau o wasanaeth gofal plant yr oedd eu lleoliad hwy wedi eu cofrestru i'w cynnig, dywedodd 126 eu bod wedi eu cofrestru fel darparydd gofal dydd llawn, 91 fel gwarchodwr plant, 47 fel darparydd gofal dydd sesiynol, 31 fel darparwr gofal plant

tu allan i'r ysgol a 3 fel meithrinfa.[3] O'r ymatebwyr hyn, roedd 38 wedi gwneud cais i'r ASG o'r blaen ac wedi mynd ymlaen i ateb cwestiynau'r arolwg mewn perthynas â'r broses ymgeisio ac effaith y cymorth yr oedden nhw'n ei dderbyn. Ni roddwyd unrhyw bwysoliad ar ganlyniadau'r arolwg, felly dylid ystyried y canlyniadau fel rhai dangosol ac nid o anghenraid fel rhai sy'n cynrychioli'r boblogaeth ehangach o ddarparwyr.

### *Cyfweliadau ag awdurdodau lleol*

2.14 Cafwyd cyfweliadau manwl gydag arweinwyr gofal plant a chydgysylltwyr ADY ymhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Darparodd Llywodraeth Cymru fanylion cysylltu'r dalwyr swyddi perthnasol ymhob un o'r awdurdodau lleol. Anfonwyd e-bost at awdurdodau lleol yn eu gwahodd i gymryd rhan yn yr ymchwil gan IFF Research yn fuan ym mis Medi 2023 a chafwyd y cyfweliadau ym mis Medi a Hydref 2023. Cyfwelwyd arweinwyr gofal plant a chydgysylltwyr ADY ymhob awdurdod lleol ar yr un pryd am fod eu gwybodaeth a'u profiadau o'r ASG yn amrywio, a gallent ddod â gwahanol safbwyntiau ynglŷn â sut yr oedd yn gweithio. Er enghraifft, roedd arweinwyr gofal plant yn tueddu bod â goruchwyliaeth strategol dros y grant tra bo gan gydgysylltwyr ADY well dealltwriaeth o'r ffordd yr oedd plant yn elwa o'r ASG.

2.15 Mewn un achos, roedd yr awdurdod lleol wedi dangos bod yr ASG yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd oedd yn amlwg wahanol i ardaloedd lleol eraill. Yn yr achos hwn, gwahoddwyd aelodau eraill o staff i ail gyfweliad i ddysgu rhagor am eu model ar gyfer defnyddio cyllid.

2.16 Roedd y cyfweliadau'n canolbwyntio ar y galw lleol am yr ASG, y prosesau i benderfynu pwy all dderbyn y grant a sut mae'r grant yn cael ei ddefnyddio. Hefyd, gofynnwyd i ymatebwyr am unrhyw adborth am reolaeth y grant ac am unrhyw awgrymiadau am welliannau. Mae'r canllawiau testun ar gyfer awdurdodau lleol i'w cael yn Atodiad B.

### *Cyfweliadau gyda darparwyr gofal plant*

2.17 Cafwyd cyfweliadau manwl gydag wyth darparydd gofal plant ledled Cymru. Cynigiwyd £25 (drwy daleb Amazon, PayPal neu Wise Pay) i ymatebwyr i ddiolch iddynt am eu hamser. Roedd y cyfweliadau'n canolbwyntio ar y ffordd yr oedd

---

[3] Nodwch, nid yw'r niferoedd hyn yn rhoi cyfanswm o 259. Y rheswm am hyn yw bod yr arolwg wedi caniatáu i ddarparwyr roi nifer o atebion o blith yr opsiynau a nodwyd.

darparwyr wedi adnabod yr angen i wneud cais am yr ASG, eu profiadau o'r broses ymgeisio ac unrhyw ganlyniadau i dderbyn y grant. Hefyd, gofynnwyd i'r ymatebwyr am unrhyw adborth ynghylch rheoli'r grant ac am unrhyw awgrymiadau ynglŷn â gwella. Mae'r arweiniad testun i ddarparwyr gofal plant i'w gael yn Atodiad C.

2.18 Y nod cyntaf oedd gwneud cyfweliadau gyda deg darparydd oedd wedi derbyn cyllid ASG, gan recriwtio'r sampl o ddarparwyr o ymatebwyr yr arolwg. Fodd bynnag, am fod nifer yr ymatebwyr i'r arolwg oedd wedi derbyn arian ASG yn weddol isel, gofynnwyd i awdurdodau lleol hefyd gysylltu â darparwyr oedd wedi derbyn cyllid ASG yn ddiweddar i'w gwahodd i gymryd rhan mewn cyfweliad. Fodd bynnag, ni achosodd hyn unrhyw gyfweliadau ychwanegol. Cymerwyd rhan yn y cyfweliadau ansoddol gan gyfanswm o wyth darparydd. Recriwtiwyd saith drwy'r arolwg ac un drwy'r Arweinydd Gofal Plant yn eu hawdurdod lleol.

2.19 O'r wyth darparydd a gyfwelwyd, roedd pedwar yn lleoliadau gofal dydd llawn, dau yn cynnig gofal dydd llawn a gofal tu allan i'r ysgol, roedd un yn lleoliad gofal dydd sesiynol, ac roedd un yn warchodwr plant. Roedd y sampl a gafwyd wedi ei ledaenu'n ddaearyddol gyda phedwar yng ngogledd Cymru, dau yng ngorllewin Cymru a dau yn ne Cymru.

### *Cyfweliadau gyda theuluoedd*

2.20 Cynhaliwyd cyfweliadau manwl gyda deg teulu ledled Cymru oedd â phlentyn oedd wedi ei gefnogi gan ariannu ASG. Cynigiwyd £40 i deuluoedd drwy daleb Amazon, PayPal, neu Wise Pay i ddiolch iddynt am eu hamser.

2.21 Roedd y cyfweliadau'n canolbwyntio ar brofiadau rhieni o gael gafael ar ofal plant ar gyfer eu plentyn sydd ag ADY, y broses o geisio cydnabyddiaeth ffurfiol i'r ADY a chael gafael ar y cymorth angenrheidiol, a'u sylwadau am y cyllido yn y lleoliad. Roedd gwybodaeth a dderbyniwyd mewn cyfweliadau cwmpasu a chyfweliadau gydag awdurdodau lleol a darparwyr yn tynnu sylw at y ffaith bod gwybodaeth yr ASG yn debygol o amrywio yn sylweddol ymysg teuluoedd. Am y rheswm hwn, roedd y canllawiau testun wedi eu llunio i ganiatáu trafodaeth agored wedi ei arwain gan lefel gwybodaeth y rhieni a'u dealltwriaeth o'r prosesau ASG. Lle'r oedd gan rieni ddealltwriaeth dda o'r ffrwd ariannu a'r broses i gael gafael arno, gofynnwyd iddynt hefyd a oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau i wella'r broses. Darperir canllaw'r pwnc teulu yn Atodiad D.

2.22 Cafodd teuluoedd eu recriwtio i gael cyfweliad drwy ddarparwyr gofal plant a'r awdurdod lleol. Anfonwyd gwybodaeth am yr ymchwil at ddarparwyr ac awdurdodau lleol oedd wedi cytuno i helpu i recriwtio teuluoedd, ynghyd â thestun a awgrymwyd ganddynt i'w ebostio at deuluoedd i'w gwahodd i gymryd rhan yn yr ymchwil.

2.23 O'r deg teulu a gyfwelwyd, roedd chwech yn ne ddwyrain Cymru, tri yng ngogledd Cymru ac roedd un yn y de orllewin

### Cam tri: Dadansoddi ac adrodd

2.24 Cafodd cyfweliadau gyda phob grŵp eu hysgrifennu mewn fframwaith dadansoddi ar wahân o dan benawdau perthnasol cyn cael cod i adnabod y negeseuon oedd yn dod allan o'r cyfweliadau. Cafwyd sesiwn ddadansoddi ym mis Rhagfyr 2023 i drafod themâu a ganfuwyd i bob grŵp ochr yn ochr â chanfyddiadau'r arolwg, ac i ddechrau triongli'r data i ganfod themâu allweddol oedd yn dod allan ar draws gwahanol linynnau o'r gwaith maes.

### Sylwadau am gyfyngiadau'r ymchwil

2.25 Dylid nodi bod yr arweiniad i awdurdodau lleol ar ddefnyddio'r ASG yn nodi y dylid eu defnyddio i ymdrin ag "anghenion cymorth ychwanegol". Gallai'r rhain gynnwys ADY ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i ADY, ac nid yw'n ofyniad i adnabod ADY yn ffurfiol er mwyn defnyddio'r ASG. Fodd bynnag, cafodd y term 'ADY' ei ddefnyddio'n eang gan amrywiol gyfranogwyr yn yr ymchwil (weithiau wrth gyfeirio at anghenion cymorth ychwanegol) ac felly mae'n cael ei ddefnyddio drwy gydol yr adroddiad hwn. Yn ogystal, cafodd y term ADY ei ddefnyddio mewn cyfweliadau gyda darparwyr, i asesu eu hymwybyddiaeth gyffredinol o'r Cod Ymarfer ADY. Lle gallai canfyddiadau ymwneud ag anghenion cymorth ehangach, tynnir sylw at hyn.

2.26 Fel y dywedwyd uchod, sicrhaodd yr arolwg 259 o ymatebion. Ond, dim ond 38 o'r ymatebwyr oedd wedi gwneud cais am yr ASG ac oedd yn gallu ateb cwestiynau am y broses ymgeisio a'r canlyniadau. Am fod y maint sylfaen yn weddol isel ar gyfer y cwestiynau hyn, ni fyddai unrhyw ganfyddiadau a wneir drwy gymharu'r is-grwpiau'n ystadegol yn arwyddocaol oherwydd bod risg uwch o wallau samplu. Am y rheswm hwn, lle'r ydym yn nodi canlyniadau o'r cwestiynau hyn drwy gydol yr adroddiad, rydym yn gwneud hynny'n ansoddol ac nid ydym yn cynnwys unrhyw ddadansoddiad o is-grwpiau. Lle mae'r meintiau sylfaen yn caniatáu hynny, mae canlyniadau'r arolwg wedi eu cyflwyno mewn siartiau ac mae'r maint sylfaen, yn

cynnwys meintiau sylfaen unrhyw is-grwpiau sy'n cael eu harchwilio, wedi eu nodi'n glir ac mae seren i ddangos unrhyw wahaniaethau sylweddol.

2.27 Un o gyfyngiadau eraill yr ymchwil oedd nad oedd data manwl ar gael am wariant ASG. Roedd y data am wariant ASG a ddaliwyd gan Lywodraeth Cymru wedi ei gyfyngu i'r hawliau misol sydd gan bob awdurdod lleol ac felly nid oedd yn bosibl archwilio faint o blant oedd wedi eu cefnogi gan yr ASG, na faint oedd yr hawliad ASG cyfartalog ar lefel unigol. Gofynnwyd am wybodaeth ynghylch y nifer o blant a gefnogwyd gan yr ASG gan yr arweinydd gofal plant ymhob awdurdod lleol ond, mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru, penderfynwyd gofyn iddyn nhw ddarparu'r wybodaeth hon ar gyfer y flwyddyn academaidd fwyaf diweddar oedd yn golygu bod y cyfnod amser yn wahanol i gyfnod y data mwyaf diweddar oedd ar gael am wariant gan Lywodraeth Cymru. Am y rheswm hwn, mae dadansoddiad o'r data am wariant ASG yn gyfyngedig a rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau.

2.28 Yn olaf, mae'r lefelau gweddol isel o ymwybyddiaeth o'r ASG ymysg teuluoedd yn golygu eu bod yn methu rhoi sylwadau am y broses ymgeisio ASG yn aml iawn. Yn wir, mewn rhai achosion, nid oedd y teuluoedd yn gwybod eu bod wedi derbyn yr ASG ac nid oeddent yn siŵr pa ran o ofal eu plentyn a chymorth ychwanegol oedd wedi ei gyllido drwy'r grant hwnnw. Am fod y teuluoedd hyn wedi cael eu recriwtio drwy eu darparydd gofal plant neu awdurdod lleol, y gofynnwyd yn benodol iddynt recriwtio teuluoedd oedd yn derbyn ASG, tybiwyd eu bod wedi derbyn cymorth drwy'r ASG. Fodd bynnag, ychydig iawn wybodaeth oedd ar gael cyn y cyfweliad am y math o gymorth yr oedd y teulu wedi ei dderbyn, ac roedd hyn yn cyfyngu ar ddyfnder y cwestiynu oedd yn bosibl. Dylai unrhyw ymchwil pellach yn y maes yma ystyried yr heriau methodolegol hyn.


# 3. Ymwybyddiaeth ac amlygrwydd ADY

3.1 Mae'r bennod hon yn trafod canfyddiadau pobl am y lefelau cyffredinol o alw am gymorth ADY ac ymwybyddiaeth a hyder cyffredinol darparwyr o ran adnabod a chefnogi plant gydag ADY. Mae hyn yn rhoi'r canfyddiadau mewn perthynas â gweithrediad yr ASG yn eu cyd-destun, oherwydd mae'n debyg bod y galw am yr ASG, a'r defnydd a wneir ohono, yn cael eu gyrru gan y galw a'r ymwybyddiaeth o'r ADY yn y sector yn gyffredinol. Fodd bynnag, er bod y canfyddiadau sydd wedi eu trafod yn y bennod hon yn cyfeirio at ADY, dylid nodi nad yw'r defnydd a wneir o'r ADY wedi ei gyfyngu i achosion lle mae ADY cydnabyddedig gan blentyn. Mae'r canfyddiadau yn y bennod hon wedi eu tynnu o'r arolwg o ddarparwyr gofal plant. Mae'r bennod yn amlinellu lefelau o ymwybyddiaeth ac amlygrwydd ADY, yn cynnwys lefelau o hyder wrth weithio gyda phlant sydd ag ADY posibl a rhwystrau o ran adnabod plant gydag ADY.

## Lefelau o ymwybyddiaeth o ADY ymysg darparwyr gofal plant

3.2 I raddau mawr, roedd y darparwyr a arolygwyd gennym yn nodi eu bod yn teimlo'n hyderus yn gofalu am blant gydag ADY. Fel y gwelwn yn Ffigur 3.1, roedd pedwar ymhob pump (82%) o ddarparwyr yn hyderus yn adnabod plant gydag ADY posibl, ychydig dros ddwy ran o dair (70%) yn gwybod pa gamau i'w cymryd i gael asesiad ADY i blentyn, ac roedd pedwar ymhob pump yn hyderus yn gweithio gyda phlant sydd ag ADY (81%).

**Ffigur 3.1. Hyder y staff o ran gweithio gyda phlant sydd ag ADY, o ran adnabod plant gydag ADY ac o ran gwybod pa gamau i'w cymryd**




C2. I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r datganiadau a ganlyn: Rydw i, ac unrhyw staff eraill yn fy lleoliad, yn hyderus o ran… Pob un (n=259).

3.3 Gwelwyd rhai gwahaniaethau yn y lefelau hyder yn ôl y math o leoliad. Roedd gwarchodwyr plant yn llai tebygol o gytuno eu bod yn hyderus o ran adnabod plant oedd ag ADY posibl o'i gymharu â'r holl fathau eraill o leoliadau wedi eu cyfuno (75% o'i gymharu â 86% yn y drefn honno). Roedden nhw hefyd yn llai tebygol o gytuno eu bod yn hyderus o ran gwybod y camau i'w cymryd i gael asesiad ADY ffurfiol (58% o'i gymharu â 77% o'r holl fathau o leoliadau wedi eu cyfuno).

3.4 Dywedodd y mwyafrif (87%) o ddarparwyr y byddent yn gwybod gyda phwy i gysylltu os bydden nhw'n darganfod plentyn gydag ADY posibl. Roedd lleoliadau gofal dydd llawn yn fwy tebygol o gytuno y byddent yn hyderus yn gwneud hyn o'i gymharu â gwarchodwyr plant (95% o'i gymharu â 76%).

3.5 Dywedodd ychydig dros ddwy ran o dair (68%) o ddarparwyr eu bod wedi adnabod plentyn gydag ADY posibl yn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd hyn yn is ymysg gwarchodwyr plant o'i gymharu â'r holl fathau eraill o leoliadau wedi eu cyfuno (43% o'i gymharu â 81% yn y drefn honno).


## Amlygrwydd ADY mewn lleoliadau

3.6 Roedd tua thraean (33%) o ddarparwyr gofal plant heb unrhyw blant gydag ADY yn eu lleoliad – yn rhai oedd wedi cael diagnosis neu y tybiwyd bod ADY ganddynt. Roedd gan ychydig llai na dwy ran o dair (59%) rhwng un a phump o blant, ac roedd gan gyfran llawer llai (2%) rhwng 11 a 20 blant. Roedd gwarchodwyr plant yn fwy tebygol o beidio cael plant gydag ADY o gwbl yn eu lleoliad o'i gymharu â'r holl fathau eraill o leoliadau wedi eu cyfuno (51% o'i gymharu â 15% yn y drefn honno). Gallai hyn adlewyrchu gwarchodwyr plant sy'n gofalu am niferoedd llai o blant na'r cyfartaledd, neu ddiffyg hyder ymysg rhai o ran gallu adnabod a gofalu am blant gydag ADY, ond nid oedd yr arolwg yn gofyn am y rhesymau dros y gwahaniaeth hwn. Roedd darparwyr oedd yn gofalu am blant gydag ADY yn eu lleoliadau wedi nodi eu bod yn gofalu am ddau blentyn gydag ADY yn eu lleoliad ar gyfartaledd. Roedd y ffigur hwn yn is ymysg gwarchodwyr plant oedd yn gofalu am un plentyn gydag ADY ar gyfartaledd. Gall y canfyddiadau hyn gael eu hesbonio'n rhannol gan feintiau cymharol pob lleoliad, am fod gan warchodwyr plant lai o blant yn eu lleoliad fel arfer. Felly, er bod y math o leoliad yn ffactor sy'n debygol o gael dylanwad, nid oes modd gwahanu hyn oddi wrth maint a math y lleoliad.

## Rhwystrau o ran adnabod plant gydag ADY

3.7 Y ffyrdd mwyaf cyffredin o adnabod plant gydag ADY posibl ymysg y staff oedd pan fyddai rhieni'n lleisio pryderon (82%) a thrwy aelodau o staff yn gwylio datblygiad y plentyn yn y lleoliad (81%). Mae dulliau cyffredin eraill i'w gweld yn ffigur 3.2 isod.

**Ffigur 3.2. Y ffyrdd mwyaf cyffredin oedd gan staff o adnabod plant gydag ADY posibl**





C2. Sut fyddech chi efallai'n adnabod bod gan blentyn yn y lleoliad ADY posibl? Pob un (n=259).

3.8 Yn ogystal â gofyn iddynt am eu lefelau hyder yn eu gallu eu hunain a gallu eu staff i adnabod ADY, gofynnwyd i'r darparwyr a oeddent yn wynebu rhwystrau oedd yn eu hatal rhag gwneud hynny. Soniodd tua saith ymhob deg o ddarparwyr (71%) am rwystrau oedd yn eu hatal rhag adnabod plant gydag ADY[4]. Ymysg y rhwystrau mwyaf cyffredin yr oeddent yn eu hwynebu oedd oedran y plentyn yn achosi ansicrwydd o ran adnabod ADY (42%), dim digon o wybodaeth yn cael ei phasio ymlaen gan asiantaethau a gwasanaethau eraill (40%), diffyg ymgysylltiad gan y rhieni (36%) a difrifoldeb y cyflwr (20%), fel y gwelwn yn ffigur 3.3. Roedd gwarchodwyr plant yn llai tebygol o sôn am rwystrau oedd yn eu hatal rhag adnabod plant gydag ADY (roedd 34% yn cytuno, o'i gymharu â 22% o'r holl fathau eraill o leoliadau wedi eu cyfuno). Roedd gwarchodwyr plant hefyd yn llai tebygol o

[4] Gellir cyferbynnu'r gyfran uchel o ddarparwyr sy'n wynebu rhwystrau i adnabod plant ag ADY â'r gyfran uchel sy'n adrodd hyder wrth nodi ADY (gweler para.3.2). Gallai hyn awgrymu lefelau uchel o hyder yn eu gallu eu hunain i nodi anghenion mewn ystyr cyffredinol, gyda chydnabyddiaeth bod rhwystrau'n debygol o fodoli mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft oedran plentyn yn gwneud y broses adnabod yn llai sicr neu ddiffyg gwybodaeth gan asiantaethau eraill.

fod â phlentyn yn eu lleoliad oedd ag ADY (mae 51% o warchodwyr plant heb unrhyw blant yn eu lleoliad gydag ADY, o'i gymharu â 28% i gyd) neu wedi adnabod plentyn gydag ADY posibl yn y 12 mis diwethaf (dywedodd 55% nad oeddent wedi adnabod plentyn gydag ADY posibl, o'i gymharu â 30% i gyd).

**Ffigur 3.3. Y rhwystrau mwyaf cyffredin a wynebir wrth adnabod plant gydag ADY**




C3. Rhwystrau a wynebwyd o ran adnabod plant gydag ADY. Pob un (n=259), Gwarchodwyr plant (n=91), Pob darparydd heblaw gwarchodwyr plant (n=167). Mae * yn dangos gwahaniaeth sylweddol o'i gymharu â phob un.

## Casgliad

3.9 Roedd y mwyafrif o ddarparwyr yn hyderus yn gofalu am eu plant gydag ADY ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu os oedden nhw wedi adnabod plentyn gydag ADY posibl. Mae hyn yn dangos bod ymwybyddiaeth o ADY yn annhebygol o fod yn rhwystr i dderbyn yr ASG i'r mwyafrif o ddarparwyr. Roedd gwarchodwyr plant yn llai tebygol o adnabod plant gydag ADY ac yn gwybod pa gamau i'w cymryd i gael cydnabyddiaeth ffurfiol ar gyfer yr ADY, a hefyd yn llai tebygol o fod ag unrhyw blant yn eu lleoliad oedd ag ADY wedi'u hadnabod (ynghynt).

# 4. Ymwybyddiaeth o'r ASG

4.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r lefelau o ymwybyddiaeth am yr ASG ymysg darparwyr ac yn archwilio gwahaniaethau yn ôl y math o leoliad a maint y lleoliad. Mae hefyd yn archwilio ymwybyddiaeth o'r ASG ymysg teuluoedd ac yn archwilio goblygiadau posibl hyn ar y galw cyffredinol amdano. Mesurwyd yr ymwybyddiaeth am yr ASG gan yr arolwg o ddarparwyr gofal plant a chafodd ei archwilio ymhellach mewn cyfweliadau gydag awdurdodau lleol, darparwyr a theuluoedd.

## Darparwyr gofal plant


4.2 Roedd ymwybyddiaeth o'r ASG yn isel ymysg yr holl fathau o leoliadau er gwaethaf y ffaith bod y darparwyr i gyd a arolygwyd wedi eu cofrestru i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant i Gymru. Doedd oddeutu dwy ran o dair (67%) o'r darparwyr a lenwodd yr arolwg erioed wedi clywed am yr ASG, roedd oddeutu un ymhob pump (19%) wedi clywed am ASG ond erioed wedi gwneud cais amdano, ac roedd ychydig yn llai nag un ymhob pump (15%) wedi clywed amdano ac roedden nhw yn y broses o wneud cais amdano neu wedi gwneud cais yn barod.

4.3 Mae canfyddiadau'r arolwg yn gwrthddweud yr adborth gan awdurdodau lleol oedd yn rhoi sylwadau mewn cyfweliadau eu bod yn teimlo bod y mwyafrif o leoliadau, heblaw gwarchodwyr plant, yn ymwybodol o'r ASG ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu i gael cymorth gyda'r cais.

### *Gwahaniaethau fesul math o leoliad*

4.4 O'i gymharu â'r holl fathau eraill o leoliadau, y gwarchodwyr plant oedd y lleiaf tebygol o fod wedi clywed am yr ASG (81% o'i gymharu â 59% yn y drefn honno). Mae Ffigur 4.1 isod yn dangos hyn yn fanylach.

**Ffigur 4.1. Ymwybyddiaeth o'r ASG fesul math o ddarparydd**




D1. Wedi clywed am ASG cyn cymryd rhan yn yr arolwg? Pob un (n=259), Gwarchodwyr plant (n=91), Gofal dydd llawn (n=126), Pob darparydd heblaw gwarchodwyr plant (n=167). * yn dangos gwahaniaeth sylweddol o'i gymharu â phob un.

4.5 Roedd awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r lefelau is o ymwybyddiaeth am yr ASG ymysg gwarchodwyr plant. Rhoddwyd nifer o resymau i esbonio pam fod gwarchodwyr plant yn grŵp arbennig o anodd eu cyrraedd i awdurdodau lleol. Yn gyntaf, roedd rhai ohonynt yn esbonio bod gwarchodwyr plant yn tueddu i fod â llai o blant yn derbyn y Cynnig Gofal Plant, ac felly efallai nad oedd y plant yr oedden nhw'n gofalu amdanynt yn gymwys am yr ASG. Yn ail, roedden nhw'n teimlo am fod gwarchodwyr plant yn tueddu i weithio ar eu pennau eu hunain, efallai y byddent yn llai tebygol o gymryd plant gyda lefel uchel o angen. Yn drydydd, roedden nhw'n teimlo y gallai gwarchodwyr plant hefyd gael trafferth recriwtio aelodau ychwanegol o staff mewn achosion lle'r oedd hyn yn ofynnol yn rhan o'r cymorth a arianwyd, am eu bod yn aml yn gweithio ar eu pennau eu hunain ac mewn amgylcheddau mwy ynysig:

> "Byddai gwarchodwyr plant yn llai parod i wneud cais am grant a fyddai'n golygu bod angen iddyn nhw gyflogi staff ychwanegol." – Arweinydd Gofal Plant

### *Gwahaniaethau yn ôl maint y lleoliad*

4.6 Roedd awdurdodau lleol wedi sylwi hefyd ar amrywiadau yn y lefel o ddealltwriaeth am yr ASG a'r gallu i ymgysylltu â'r broses ymgeisio ar sail maint y lleoliad. Roedden nhw'n dweud bod lleoliadau mwy yn fwy tebygol o wneud cais am fod ganddynt yr adnoddau a'r gallu gweinyddol i wneud hynny:

> "Y sefydliadau mwy sy'n tueddu i fod â'r strwythur gweinyddol y tu ôl iddynt sy'n gallu eu cefnogi i lenwi'r ffurflenni a bod â'r amser i gyflwyno'r ceisiadau hyn a chasglu'r holl dystiolaeth y maent eu hangen." – Arweinydd ADY

4.7 Roedd awdurdodau lleol yn teimlo bod y darparwyr mwy hyn yn gallu adeiladu enw da weithiau am allu darparu cymorth da i blant gydag ADY, am fod ganddynt y gallu i gyflwyno mwy o geisiadau, a oedd yn llwyddiannus yn aml iawn, ac felly roeddent yn denu mwy o deuluoedd gyda phlant oedd angen cymorth ychwanegol:

> "Mae'n ymddangos bod gan rai lleoliadau… enw da am fod yn well gyda phlant sydd ag angen sy'n dod i'r amlwg ac mae'n ymddangos eu bod yn denu teuluoedd gyda phlant sydd angen y cymorth ychwanegol hwnnw." – Arweinydd Gofal Plant

### *Bylchau yn ymwybyddiaeth y darparydd*


4.8 Er bod dwy ran o dair (64%) o ddarparwyr yn cytuno eu bod yn hyderus am benderfynu a yw plentyn yn gymwys ar gyfer yr ASG, roedd rhai ymatebion i'r arolwg yn awgrymu bod ansicrwydd ynghylch cymhwysedd a hyder wrth wneud cais am yr ASG.

4.9 Gofynnwyd pam i'r darparwyr oedd wedi clywed am yr ASG ond oedd heb wneud cais amdano erioed. Ymysg y prif resymau a roddwyd ganddynt oedd nad oedd ganddynt blant yn eu lleoliad oedd angen cymorth ychwanegol (15 allan o 48 o ddarparwyr), ac am eu bod yn ansicr a oedd unrhyw blant yn eu lleoliad yn gymwys (14 allan o 48). Dywedodd nifer is o ddarparwyr nad oeddent erioed wedi gwneud cais am nad oeddent yn gwybod am beth roedd y cais yn ei dalu (7 allan o 48) ac am nad oeddent yn gwybod sut i wneud cais (4 allan o 48).

4.10 Ymhellach, mae'r arolwg yn dangos bod rhai darparwyr oedd heb unrhyw ymwybyddiaeth o'r ASG yn gofyn am gymorth i blant gydag ADY a allai gael ei dalu drwy'r grant. Fel y gwelwn yn ffigur 4.2 isod, roedd dwy ran o dair (68%) o ddarparwyr oedd erioed wedi clywed am yr ASG yn dangos bod ganddynt blant yn eu lleoliad oedd angen cymorth a allai gael ei dalu gan yr ASG. Felly, gallai'r

lleoliadau hyn fod wedi elwa o bosib o'r ASG os bydden nhw wedi gwybod am ei fodolaeth. Roedd gwarchodwyr plant yn llai tebygol o gytuno bod ganddynt blant oedd angen cymorth y gallai'r ASG dalu amdano (45% o'i gymharu â 83% ar gyfer yr holl ddarparwyr heblaw gwarchodwyr plant). Mae hyn yn cefnogi'r awgrym bod gwarchodwyr plant yn llai tebygol o adnabod plant sydd efallai angen cymorth a/neu bod ganddynt lai o blant yn eu lleoliad gydag ADY.

**Ffigur 4.2. Y mathau o gymorth y mae lleoliadau ei angen y gall ASG dalu amdano**




D2. A oes angen unrhyw rai o'r canlynol ar eich lleoliad er mwyn sicrhau bod rhieni plant gydag ADY, anableddau neu anghenion iechyd eraill, yn gallu derbyn elfennau gofal plant y Cynnig Gofal Plant i Gymru? Heb glywed am yr ASG erioed (n=173), Gwarchodwyr plant (n=74), Pob darparydd heblaw gwarchodwyr plant (n=99). Mae * yn dangos gwahaniaeth sylweddol o'i gymharu â phob un.

## Teuluoedd

4.11 Roedd pob teulu bron y buom yn siarad â nhw yn gwybod bod eu plentyn yn derbyn cymorth ychwanegol oedd wedi ei gysylltu â'r Cynnig Gofal Plant, ond doedd ganddyn nhw fawr ddim ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth am yr hyn oedd ASG,

pam fod eu plentyn yn gymwys na pha fathau o gymorth y gallant fod wedi ei dderbyn. Mae'n bwysig nodi bod y rhieni wedi eu cyfeirio at y tîm ymchwil gan leoliadau ac y dywedwyd wrthynt am beth oedd yr ymchwil, felly nid yw'n syndod bod ganddynt rywfaint o ymwybyddiaeth o'r ASG.

4.12 Soniodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol y buom yn siarad â nhw eu bod yn amharod i godi ymwybyddiaeth am yr ASG ymysg teuluoedd er mwyn peidio 'agor y llifddorau' a chodi disgwyliadau rhieni am y cymorth y byddai eu plentyn yn ei dderbyn:

> "Mewn ffordd fyddwn i ddim eisiau iddyn nhw [rhieni] wybod [am yr ASG]! Mae'n swnio'n annheg ond byddai pawb yn hoffi i'r plentyn gael 1-1 unigol, p'un a oes ganddyn nhw ADY neu beidio. Rhaid bod yn ymwybodol y byddwn yn ceisio cefnogi eu plentyn, waeth beth yw eu hanghenion." – Arweinydd Gofal Plant

4.13 Ar yr un pryd, ac efallai nad yw hyn yn syndod, soniodd nifer o rieni mai un o'r pethau y byddent yn ei newid am yr ASG yw'r ffordd yr hysbysebir y cymorth. Roedden nhw'n teimlo bod angen i'r llwybr fod yn llawer mwy eglur ac wedi ei hysbysebu'n ehangach, ac y dylid cael mwy o gymorth i rieni drwy gydol y broses:

> "Rwy'n meddwl bod angen i [Lywodraeth Cymru] fod 100% yn sicr y cyrhaeddir bob plentyn sydd â'r hawl i'w dderbyn a'u bod yn ei dderbyn. Mae llawer o rieni sydd heb unrhyw syniad o gwbl beth maen nhw'n gymwys i'w dderbyn, ble i droi, a phwy i siarad â nhw." – Rhiant

4.14 Roedd llawer o rieni'n teimlo na fyddent wedi gwybod bod y cymorth ar gael os na fyddai'r plentyn wedi bod mewn meithrinfa ragweithiol oedd yn wybodus am ADY:

> "Heb y staff yn y feithrinfa, dydw i ddim yn gwybod i ble y byddwn i'n troi. Hynny ydy, gallwch geisio cael gafael ar bethau ar y rhyngrwyd, ond dydy hi ddim bob amser mor glir â rhywun yn eu hesbonio i chi." – Rhiant

## Casgliad

4.15 Er gwaethaf y ffaith bod y mwyafrif o ddarparwyr yn teimlo'n hyderus yn eu hymwybyddiaeth o ADY ac o brosesau ADY yn fwy cyffredinol, roedd yr ymwybyddiaeth am ASG ymysg darparwyr yn weddol isel. Yn debyg i'r ymwybyddiaeth gyffredinol o ADY, roedd ymwybyddiaeth o'r grant yn amrywio fesul math o leoliad, a lleoliadau llai a gwarchodwyr plant oedd leiaf tebygol o wybod amdano. Soniodd awdurdodau lleol am gyfyngu ar hysbysebu eang am yr ASG er

mwyn osgoi codi disgwyliadau rhieni a methu cyllido rhagor. O ganlyniad roedd yr ymwybyddiaeth am ASG ymysg teuluoedd sy’n derbyn y grant yn isel iawn, sy’n awgrymu y byddai’r ymwybyddiaeth ymysg teuluoedd nad ydynt yn derbyn y grant yn llawer is. Mae hyn yn awgrymu nad yw rhai darparwyr a theuluoedd efallai’n gwybod am yr opsiwn o gymorth ychwanegol drwy’r ASG ac, o ganlyniad, efallai fod plant a allai gael eu cefnogi i gael gafael ar ofal plant drwy’r Cynnig Gofal Plant yn colli cyfle.

# 5. Gwariant ar ASG

5.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu maint yr arian sy'n cael ei wario drwy'r ASG a'r nifer o blant sy'n cael eu cefnogi drwy'r grant. Mae'n archwilio dealltwriaeth awdurdodau lleol am y grant a'r ffactorau oedd yn gyrru'r galw amdano.


## Gwariant ASG

5.2 Yn 2021-22[5] gwariodd Llywodraeth Cymru tua £1.1m drwy'r ASG ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd y gwariant gan awdurdodau lleol yn amrywio o tua £7,000 i tua £180,000, gyda chyfartaledd (cymedr) gwariant fesul awdurdod lleol o tua £49,000.

5.3 Mae Ffigur 5.1 yn dangos y gwariant blynyddol ar yr ASG yn 2021-22 ar gyfer pob awdurdod lleol wedi'i blotio yn erbyn y nifer o blant y soniodd yr awdurdod lleol eu bod yn eu cefnogi drwy'r grant ym mlwyddyn academaidd 2022-23. Nid yw'r cyfnodau amser hyn yn alinio oherwydd, fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, nid oedd data ar wariant ASG ar gael ar gyfer 2022-23. Fel y gwelwn isod, roedd gan y llinell ffit orau werth[6] $R^2$o 0.6 gan awgrymu bod gwariant ASG yn tueddu i gyfateb i'r nifer o blant yr oedd yr awdurdod lleol yn eu cefnogi drwy'r grant. Ond, am nad yw'r cyfnodau amser yn alinio, dylid bod yn ofalus wrth drin y canlyniadau hyn.

[5] 2021-22 yw'r flwyddyn ariannol olaf y mae gennym ddata llawn a chyflawn am wariant ASG ar ei chyfer.
[6] R-sgwar yw'r mesur ystadegol o ba mor agos yw'r data i'r llinell o ffit orau. Mae R-sgwar yn mesur cryfder y berthynas rhwng y ddau newidyn ar raddfa o 0 – 1.

**Ffigur 5.1 Gwariant ASG yn 2021/22 yn ôl nifer y plant a gefnogwyd yn uniongyrchol gan yr ASG yn 2022/23**[7]





## Nifer y plant a gefnogwyd yn uniongyrchol drwy'r ASG yn 2022/23

5.4 Gofynnwyd i awdurdodau lleol nodi nifer y plant yr oeddent wedi eu cefnogi'n uniongyrchol drwy'r ASG dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf (Medi 2022-Awst 2023). Yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf, roedd cyfanswm o 358 o blant wedi eu cefnogi'n uniongyrchol drwy'r ASG ledled Cymru. Ar gyfartaledd, roedd pob awdurdod lleol wedi cefnogi 16 o blant. Amrywiodd hyn o 0 i 47 o blant yn dibynnu ar yr ardal. Mae manylion y cyfanswm o blant yr oedd awdurdodau lleol yn eu cefnogi ar gael yn ffigur 5.2.

[7] Mae'r siart yn cynnwys 20 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Cafodd un ei adael allan am nad oedd wedi dychwelyd data am y nifer y plant yr oedd wedi eu cefnogi drwy'r ASG a chafodd un ei dynnu fel elfen allanol am nad oedd wedi cefnogi unrhyw blant yn uniongyrchol drwy'r ASG.

**Ffigur 5.2 Nifer y plant yr oedd awdurdodau lleol yn eu cefnogi'n uniongyrchol drwy'r ASG yn 2022-23**




## Dealltwriaeth awdurdodau lleol o'r ASG

5.5 Soniodd yr holl awdurdodau lleol mai pwrpas yr ASG oedd cynyddu'r mynediad at y Cynnig Gofal Plant i Gymru i deuluoedd plant gydag anghenion cymorth ychwanegol, yn cynnwys ADY. Roedden nhw oll yn dweud bod yr ASG dim ond yn cael ei ddefnyddio i gefnogi plant oedd ag anghenion cymorth ychwanegol pendant neu bosibl ac oedd yn derbyn y Cynnig Gofal Plant i Gymru. Roedd y mwyafrif o awdurdodau lleol hefyd yn deall bod yr ASG wedi ei lunio i gael ei 'arwain gan anghenion' ac y gallent ofyn am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru os byddai'r angen yn codi. Yn wir, roedd oddeutu eu hanner yn dweud eu bod wedi gwneud cais am gyllid ychwanegol, ac wedi derbyn cyllid ychwanegol, dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf ac roedd hyn wedi tawelu meddwl llawer ohonynt.

> "Pan oeddem wedi cyfarfod â Llywodraeth Cymru ddiwethaf, roedd yn hyfryd eu bod wedi dweud ac wedi cydnabod 'wel, os byddwch chi angen arian ychwanegol at gyfer y plant hynny am nad ydych wedi ei gael o gronfeydd eraill, dewch i ofyn i ni'. Felly roedd hynny'n weddol galonogol i wybod eu bod yn deall bod angen ateb anghenion plant, ond hefyd bod cynnydd."
>
> Arweinydd Gofal Plant

5.6 Fodd bynnag, doedd rhai awdurdodau lleol ddim yn gwybod y gallent ofyn am fwy o gyllideb ASG. Nododd rhai bod eu cyllideb wedi ei chostio'n dynn a doedden nhw ddim yn gwybod y gallent wneud cais i'w chynyddu (er enghraifft, yn dilyn tystiolaeth

bod y galw am y grant yn eu hardal yn uwch nag y gallent eu talu ar y pryd). Roedd yr awdurdodau hyn yn tueddu i fonitro eu defnydd o’r ASG yn dynn er mwyn sicrhau nad oeddent yn gorwario. Dywedodd un awdurdod lleol eu bod yn aml wedi tanwario eu cyllideb ASG, am eu bod wedi dal yn ôl rhag dyfarnu’r grant ar ddechrau’r flwyddyn rhag ofn eu bod yn cael mewnlifiad o blant gydag anghenion ychwanegol yn nes ymlaen.

5.7 Roedd awdurdod lleol arall wedi gofyn yn y gorffennol am gynnydd yn eu cyllideb ond wedi dweud bod sgyrsiau diweddar gyda Llywodraeth Cymru wedi rhoi’r argraff iddynt nad oedd llawer o hyblygrwydd i’w gynyddu wrth symud ymlaen. Mae hyn yn golygu na allent fforddio cefnogi’r holl blant gydag ADY ar y gyllideb oedd wedi ei dyrannu iddynt, felly roeddent wedi mynd ati i gyfyngu ar y mynediad i’r ASG ar gyfer plant gyda Chynllun Datblygiad Unigol (IDP) yn unig er gwaethaf y ffaith bod canllawiau ASG yn nodi y dylai plant y tybir bod ganddynt ADY ond nad ydynt wedi derbyn diagnosis gael mynediad at y grant.

> “Fyddem ni’n methu fforddio i bob plentyn sy’n ticio’r bocs hwnnw dderbyn cymorth ychwanegol, does dim digon o arian i hynny o bell ffordd… Ar hyn o bryd, yr unig blant sy’n derbyn ariannu ASG yw plant sydd ag IDP… felly dyna eich anghenion lefel uchaf yn unig mewn gwirionedd.”
>
> - Arweinydd Gofal Plant

5.8 Roedd hi’n amlwg bod yr holl awdurdodau lleol yn deall pwrpas yr ASG ac y dylai gael ei yrru gan anghenion plant. Mae’r dystiolaeth yn awgrymu bod dryswch am hyblygrwydd cyllidebau ASG, fodd bynnag, wedi arwain at sefyllfa lle’r oedd rhai wedi cyfyngu’n dynn ar y mynediad i’r grant dim ond ar gyfer y rheiny oedd â’r anghenion uchaf ac yr arweiniodd hyn at danwario mewn rhai achosion.

## Y galw am yr ASG

5.9 Roedd y mwyafrif o awdurdodau lleol yn teimlo bod y galw am ASG wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd llawer ohonynt yn teimlo mai’r rheswm am hyn oedd bod nifer cynyddol o blant yn dod i’r amlwg gydag anghenion cymorth ychwanegol oherwydd effeithiau pandemig COVID-19, fel bod gan fwy o blant oediad yn natblygiad eu sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol.

5.10 Roedd eraill yn teimlo mai’r rheswm am y cynnydd mewn galw oedd y cynnydd mewn ymwybyddiaeth am ADY o fewn lleoliadau ers cyflwyno’r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol i Gymru yn 2021. Er enghraifft, roedd rhai awdurdodau lleol

wedi symleiddio eu llwybrau cyfeirio i blant gydag ADY, ers cyflwyno'r cod. Lle byddai'r darparwyr wedi gorfod gwneud cais yn y gorffennol am botiau unigol o arian, gallan nhw yn awr gyfeirio plentyn at y tîm ADY gan ddefnyddio un ffurflen gais gyffredinol a chael eu cyfeirio at y cymorth oedd fwyaf priodol iddyn nhw. Roedden nhw'n teimlo bod symleiddio'r llwybrau cyfeirio hyn wedi ei wneud yn haws i leoliadau ddilyn gweithdrefnau cyfeirio a gwneud yr awdurdod lleol yn ymwybodol o blant gydag ADY posibl.

5.11 Er gwaethaf hynny, dywedodd rhai awdurdodau lleol bod y galw am yr ASG yn isel a'u bod yn aml wedi tanwario ar eu cyllideb ddyranedig. Mewn un ardal, y rheswm am hyn oedd bod yr holl blant tair oed wedi derbyn eu horiau gofal plant wedi'u hariannu i gyd yn yr ysgol ac felly roedd unrhyw adnoddau oedd yn ofynnol i ateb ADY wedi eu talu drwy'r gyllideb addysg. Roedd dau yn credu mai'r rheswm am y galw isel yn eu hardal oedd bod ganddynt ddarpariaeth gyffredinol gref gyda llwybr ADY clir i leoliadau ei ddilyn. Roedden nhw'n hyderus bod anghenion plant yn cael eu hateb drwy ddulliau eraill. Yn olaf, roedd un awdurdod lleol yn teimlo mai'r rheswm am y galw isel oedd yr ymwybyddiaeth isel o'r ASG ymysg lleoliadau. Roedden nhw'n lleisio pryderon am hyrwyddo'r ASG am fod ganddynt ofn 'agor y llifddorau', gyda lleoliadau gofyn am gymorth na fyddent yn gallu ei ddarparu.

5.12 Tynnodd dau awdurdod lleol sylw at anawsterau o ran ateb yr holl alw am yr ASG oherwydd pryderon ynghylch y gofyniad i ddefnyddio eu cyllideb Addysg i ddarparu arian cyfatebol ar gyfer unrhyw gymorth y mae'r plentyn yn ei dderbyn yn ystod eu horiau gofal plant wedi'u hariannu. Er enghraifft, doedd un awdurdod lleol ddim yn darparu'r cymorth ar gyfer anghenion ychwanegol yn ystod oriau Addysg heblaw bod y plentyn perthnasol wedi cael cydnabyddiaeth ffurfiol i'w ADY neu bod ganddo Gynllun Datblygiad Unigol (IDP). Dim ond ar gyfer yr elfen gofal plant y mae modd defnyddio'r ASG, ni ellir ei ddefnyddio i ddarparu cymorth yn ystod yr oriau hyn lle ariennir Addysg. Roedd hyn yn golygu, os bydden nhw'n rhoi arian i blant drwy'r ASG, dim ond ar gyfer rhywfaint o'u gofal plant y gallai'r plentyn dderbyn cymorth.

> 'Er bod y cynnig [gofal plant] ar gyfer oriau gofal plant ac addysg fel un cynnig, dim ond ar gyfer yr oriau gofal plant y gellir defnyddio'r elfen hon o'r grant. Yr un plentyn ydyw. Gallent fod yn yr un lleoliad am 30 awr, ond ni allent ei ddefnyddio ar gyfer y 10 [awr] hynny sy'n oriau addysg. Yr unig adeg y cânt ei ddefnyddio yw ar gyfer yr 20 awr sy'n ofal plant.' – Arweinydd Gofal Plant

*Y math o leoliad*

5.13 O'r 259 o ymatebwyr i arolwg y darparydd, dywedodd 38 eu bod wedi gwneud cais am gyllid ASG neu roedden nhw'n dal i fod yn y broses o wneud cais amdano. O'r rhain, roedd y mwyafrif (29) yn ddarparwyr gofal diwrnod llawn, tra bo wyth yn ddarparwyr gofal dydd sesiynol, chwech wedi darparu gofal plant tu allan i'r ysgol ac roedd dau yn warchodwyr plant. Roedd y mwyafrif (30) yn lleoliadau nas cynhelir.

5.14 Dywedodd yr holl awdurdodau lleol bod y nifer o geisiadau gan warchodwyr plant yn arbennig o isel o'i gymharu â mathau eraill o leoliadau. Doedden nhw ddim yn teimlo bod hyn yn syndod, a dywedodd nifer bod yr ymwybyddiaeth yn debygol o fod yn is ymysg gwarchodwyr plant am fod awdurdodau lleol yn ei gael yn heriol ymgysylltu â nhw ar amrywiaeth o arferion, yn cynnwys ADY. Roedden nhw'n awgrymu mai'r rheswm am hyn oedd bod gwarchodwyr plant yn aml yn gweithio ar eu pennau eu hunain a chanddynt amser cyfyngedig a llai o allu i ymgysylltu â hyfforddiant a llwybrau cyfeirio.

5.15 Hefyd, awgrymodd rhai awdurdodau lleol bod gwarchodwyr plant yn llai tebygol o ofalu am blant gydag ADY oherwydd y maint uchel o adnoddau sy'n gallu bod yn ofynnol. Cafodd hyn ei gefnogi hefyd gan ganfyddiadau ein harolwg. Dywedodd hanner (51%) y gwarchodwyr plant nad oedden nhw'n gofalu am unrhyw blant gydag ADY (o'i gymharu â 15% o'r darparwyr eraill i gyd). O'r rheiny oedd heb glywed am yr ASG, roedd gwarchodwyr plant hefyd yn llai tebygol o ddweud eu bod yn gofyn am unrhyw rai o'r opsiynau cymorth a gynigir gan yr ASG (roedd 45% yn gofyn am unrhyw fath o gymorth o'i gymharu ag 83% o'r holl ddarparwyr eraill).

*Maint y lleoliad*

5.16 Roedd y lleoliadau oedd wedi gwneud cais am yr ASG, neu oedd yn y broses o wneud cais amdano, yn tueddu i fod yn fwy na'r rhai oedd heb wneud cais. Er enghraifft, roedd gan y rheiny oedd wedi gwneud cais 82 o blant wedi'u cofrestru ar gyfartaledd, tra bo gan y rhai oedd erioed wedi clywed am yr ASG gyfartaledd o 37 o blant wedi eu cofrestru. O'r 38 o ddarparwyr oedd wedi gwneud cais i'r ASG, roedd gan 41 rhwng 1 a 40 o blant wedi eu cofrestru, roedd gan 12 rhwng 41 a 100 o blant wedi cofrestru ac roedd gan 12 fwy na 100 o blant wedi cofrestru (32%). Y nifer isaf o blant oedd wedi cofrestru oedd 12 a'r uchaf oedd 400.

5.17 Roedd hyn wedi ei gefnogi gyda thystiolaeth gan yr awdurdodau lleol, a ddywedodd eu bod yn fwy tebygol o dderbyn ceisiadau am yr ASG gan ddarparwyr mwy.

Roedden nhw'n meddwl mai'r rheswm am hyn oedd bod lleoliadau mawr yn fwy tebygol o ofalu am blentyn gydag ADY ond hefyd am fod lleoliadau mwy yn debygol o fod yn fwy ymwybodol o'r grant a sut i wneud cais amdano.

### *Ymwybyddiaeth o ADY*

5.18 Roedd y rhai oedd wedi gwneud cais neu oedd wrthi'n gwneud cais am yr ASG yn fwy tebygol o fod wedi adnabod plentyn gydag ADY posibl yn y 12 mis diwethaf o'i gymharu â'r rhai oedd heb wneud cais (87% o'i gymharu â 11%). Roedden nhw hefyd yn fwy tebygol o fod â nifer uwch o blant yn eu lleoliad oedd angen cymorth ychwanegol ar gyfer ADY. Roedd gan y rhai oedd wedi gwneud cais am yr ASG 3.4 o blant ar gyfartaledd gydag anghenion ychwanegol yn eu lleoliad, tra bo gan y rhai oedd heb glywed am yr ASG 2.1 o blant ar gyfartaledd gydag anghenion ychwanegol.[8]

5.19 O'r darparwyr oedd wedi gwneud cais am y grant:

- Roedd y mwyafrif (29) wrthi'n gofalu am rhwng 1 a phump o blant oedd angen cymorth ychwanegol ar gyfer ADY.
- Roedd tri yn gofalu am chwech i ddeg o blant oedd angen cymorth ychwanegol ar gyfer ADY.
- Roedd tri yn gofalu am fwy na deg o blant oedd angen cymorth ychwanegol ar gyfer ADY.
- Roedd tri oedd ddim yn gofalu am unrhyw blant oedd angen cymorth ychwanegol ar gyfer ADY.[9]

5.20 Mae hyn yn awgrymu bod lleoliadau oedd â gwell dealltwriaeth o ADY a'r rheiny oedd yn cefnogi mwy o blant gydag ADY yn fwy tebygol o fod wedi gwneud cais am y grant. Mae hyn yn adlewyrchu'r canfyddiadau o gyfweliadau gydag awdurdodau lleol, lle'r oedd rhai wedi nodi eu bod wedi derbyn nifer o geisiadau gan nifer gweddol fach o ddarparwyr oedd wedi adeiladu enw da am allu darparu cymorth da i blant gydag ADY:

> "Mae'n ymddangos bod gan rai lleoliadau … enw da am fod yn well gyda phlant sydd ag anghenion sy'n dod i'r amlwg ac mae'n ymddangos eu bod yn

[8] Dylid bod yn ofalus wrth drin y canfyddiadau hyn am nad oedd control ar gyfer maint y darparydd yng nghanlyniadau'r arolwg.
[9] Efallai mai'r rheswm am hyn oedd nad oedd y plentyn y gwnaed y cais ar eu cyfer yn yr ASG wedi eu cofrestru gyda nhw bellach.

denu teuluoedd gyda phlant sydd angen y cymorth ychwanegol hwnnw." – Arweinydd Gofal Plant

### *Ffactorau eraill*

5.21 Roedd y mwyafrif o awdurdodau lleol yn teimlo nad oedd patrwm amlwg mewn lleoliadau oedd yn gwneud cais am yr ASG yn ôl lleoliad. Roedden nhw'n dweud bod lledaeniad y ceisiadau ADY yn tueddu i adlewyrchu lledaeniad ADY, a oedd ar hap ar draws yr awdurdod.

5.22 Fodd bynnag, tynnodd rhai awdurdodau sylw at y ffaith bod darparwyr gwledig yn llai tebygol o wneud cais am yr ASG. Roedd un yn meddwl mai'r rheswm am hyn o bosib oedd bod gan ddarparwyr o'r fath lai o brofiad o gefnogi plant gydag ADY, a diffyg dealltwriaeth o'r cymorth (posibl) sydd ar gael iddynt. Soniodd un arall bod darparwyr gwledig yn gallu cael trafferth recriwtio staff ychwanegol oherwydd diffyg ymgeiswyr cymwysedig yn eu hardal gyfagos, a allai eu gwneud nhw'n llai tebygol o wneud cais am gyllido ar gyfer aelodau ychwanegol o staff arbenigol.

5.23 Awgrymodd rhai awdurdodau lleol y gallai amddifadedd hefyd o bosibl ddylanwadu ar debygolrwydd lleoliadau o wneud cais am yr ASG. Dywedodd un awdurdod lleol bod ardaloedd gyda lefelau uwch o amddifadedd hefyd yn fwy tebygol o fod ag angen uwch am gyllid oherwydd diffyg ffynonellau ariannu eraill e.e. yn llai abl i dalu am gymorth neu offer eu hunain. Dywedodd eraill bod y ffaith bod cymhwysedd i dderbyn ASG yn gysylltiedig â chymhwysedd i gael y Cynnig Gofal Plant i Gymru yn golygu nad oedd teuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig oedd yn llai tebygol o fod mewn swydd yn gymwys i wneud cais am yr ASG.

## Casgliad

5.24 Roedd awdurdodau lleol yn deall pwrpas yr ASG yn glir. Ond, roedd darlun cymysg o ran y lefelau o ddealltwriaeth ynglŷn â'r gallu i wneud cais am gyllid pellach lle'r oedd y galw yn gofyn amdano. Arweiniodd hyn at sefyllfa lle'r oedd gan rai ardaloedd reolaeth dynn ar y mynediad i'r grant er mwyn osgoi gorwariant ac yn dangos bod rhai plant cymwys efallai'n colli allan ar dderbyn cymorth drwy'r ASG.

5.25 Roedd awdurdodau lleol yn meddwl bod y galw am yr ASG yn cynyddu'n gyffredinol ac yn teimlo mai'r rheswm am hyn oedd COVID-19 a chyflwyniad diweddar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol i Gymru yn 2021. Roedd lleoliadau mwy yn fwy tebygol o wneud cais am yr ASG ynghyd â darparwyr oedd yn fwy ymwybodol o ADY ac yn cefnogi mwy o blant gydag ADY.

5.26 Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod y tueddiadau hyn mewn galw a’r defnydd o’r ASG wedi golygu bod rhai lleoliadau wedi dod yn adnabyddus am gefnogi plant gydag anghenion ADY a bod hyn wedi arwain at grynodiad o blant gydag ADY yn y lleoliadau hyn. Er y gallai hyn arwain at ofal mwy arbenigol i rai plant, os bydd y duedd yn parhau gall roi mwy o faich ar y lleoliadau hynny dros amser. Yn ogystal, gallai darparwyr eraill fod ar ei hôl hi o ran gwybodaeth a’r gallu i ofalu am blant gydag ADY.

# 6. Ar beth y gwariwyd yr ASG

6.1 Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o'r cymorth a ddarparwyd drwy'r ASG. Mae'n dadansoddi canlyniadau o'r arolwg o ddarparwyr a chyfweliadau gydag awdurdodau lleol, darparwyr a theuluoedd i amlinellu'r dulliau strategol a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol i wario eu dyraniad ASG. Mae'n archwilio'r mathau o gymorth y gwneir cais amdano gan ddarparwyr; a rhwystrau a nodwyd gan ddarparwyr o ran cyrraedd a recriwtio staff addas.

## Dulliau awdurdodau lleol o wario ASG

6.2 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arweiniad i awdurdodau lleol am ddefnyddiau posibl yr ASG. Mae'r arweiniad yn nodi bod modd defnyddio'r cyllid i gefnogi plentyn cymwys a'u darparydd gofal plant gyda hyfforddiant staff, staff ychwanegol, dwylo i helpu, offer neu addasiadau ffisegol i leoliadau.

6.3 Er bod canllawiau wedi eu darparu am yr hyn y dylid gwario ASG arno, nid oedd Llywodraeth Cymru eisiau bod yn or-ragnodol, felly lle'r awdurdodau lleol i raddau mawr oedd penderfynu sut y byddent yn defnyddio a rheoli eu cyllideb ASG yn lleol. Roedd y mwyafrif o awdurdodau lleol wedi mabwysiadu model tebyg i ddyrannu gwariant ASG i'r plant oedd ei angen (fel sydd wedi'i amlinellu ym Mhennod saith). Fodd bynnag, canfuwyd dau fodel amlwg ar gyfer y ffordd yr oedd awdurdodau lleol wedi cynllunio eu gwariant ASG ar lefel strategol: 1) Dyrannu'r gyllideb gyfan i gefnogi plant unigol; a 2) Dyrannu rhywfaint o'r gyllideb i gefnogi plant unigol a rhywfaint i gyllido Swyddog Arweiniol ADY Blynyddoedd Cynnar neu swydd debyg

### *Model un: Dyrannu'r gyllideb gyfan i gefnogi plant unigol.*

6.4 Defnyddiodd y mwyafrif (13) o awdurdodau lleol eu cyllideb ASG gyfan i gefnogi plant cymwys a'u darparwyr gofal plant yn uniongyrchol. Soniodd yr awdurdodau lleol hyn i gyd y gallai darparwyr gyfeirio plant at banel amlasiantaeth a fyddai'n adolygu tystiolaeth o'u hanghenion cymorth ac ADY posibl a phenderfynu a oedd ASG yn ffordd briodol o ariannu'r cymorth hwn (mae rhagor o fanylion am y broses hon ym mhennod saith).

6.5 Ymhob achos, roedd awdurdodau lleol yn dibynnu ar dystiolaeth y darparydd ac arbenigwyr iechyd i helpu i benderfynu pa fath o gymorth y dylid defnyddio ASG ar ei gyfer. Roedden nhw i gyd yn agored i ariannu unrhyw rai o'r opsiynau cymorth sydd wedi eu hamlinellu yn yr arweiniad ASG cyhyd ag y bo'r dystiolaeth yn awgrymu y byddai'r gefnogaeth yn helpu i ateb ADY swyddogol y plentyn. Lle

ystyriwyd nad yr ASG oedd y ffordd fwyaf priodol o ariannu'r gefnogaeth, edrychodd awdurdodau lleol ar ariannu cymorth drwy ddulliau eraill.

### *Model dau: Dyrannu rhywfaint o'r gyllideb i gefnogi plant unigol a rhywfaint i ariannu Swyddog Arweiniol ADY Blynyddoedd Cynnar neu swydd debyg.*

6.6 Yn ogystal â defnyddio rhywfaint o'r gyllideb ASG i ateb anghenion plant unigol, fel y disgrifiwyd uchod, defnyddiodd wyth o'r awdurdodau lleol hefyd ran o'u cyllideb i ariannu rôl arbenigol ADY yn rhannol. Yn y mwyafrif o achosion, roedd y rôl hon wedi ei seilio yn y Tîm Addysg yn yr awdurdod lleol a chyfeiriwyd ato fel Cydgysylltydd ADY, Arweinydd ADY neu Swyddog Cymorth ADY. Mewn un achos, defnyddiwyd yr ASG i ariannu Athro Cynghori'r Blynyddoedd Cynnar, ac mewn achos arall aeth y cyllido tuag at gomisiynu Swyddogion Lleoliadau o Flynyddoedd Cynnar Cymru. Ymhob achos, pwrpas y rôl oedd cynghori darparwyr ar sut i gefnogi anghenion plant a chael gafael ar unrhyw adnoddau ychwanegol oedd yn angenrheidiol. Yn aml iawn roedd dalwyr swyddi'n ymweld â lleoliadau ac yn gwylio plant i hysbysu eu cyngor i'r lleoliad. Roedd gan y mwyafrif lwyth achos o blant gydag ADY ac roeddent yn gweithredu fel un pwynt cysylltu i ddarparwyr oedd yn ceisio cyngor am anghenion plant gydag ADY.

6.7 Ymron pob achos, dim ond yn rhannol yr oedd rôl y cydgysylltydd wedi ei ariannu drwy'r ASG, mewn cyfuniad ag ariannu o bot arall. Er enghraifft, mewn un achos, roedd y rôl wedi ei ariannu'n rhannol gan yr ASG a'i ariannu'n rhannol drwy Dechrau'n Deg, ac roedd daliwr y swydd yn rhannu ei amser rhwng y ddwy garfan o blant. Roedd hyn yn golygu bod maint sylweddol o arian yn weddill i ddarparu cymorth unigol i blant a lleoliadau oedd ei angen. Fodd bynnag, roedd awdurdod lleol arall wedi defnyddio eu cyllideb bron yn gyfan gwbl i dalu am Swyddog Cymorth ADY llawn amser ar gyfer y Cynnig Gofal Plant i Gymru. Dywedodd yr awdurdod lleol hwn bod gweddill bach y grant wedi'i ddefnyddio i brynu adnoddau cyffredinol ar gyfer eu llyfrgell fenthyg, a allai wedyn gael eu darparu i ddarparwyr a theuluoedd oedd angen offer arbenigol.

### *Gwneud penderfyniadau*

6.8 Dywedodd yr holl awdurdodau lleoll a ddefnyddiodd yr ASG i dalu am Gydgysylltydd ADY neu rôl debyg eu bod wedi gwneud hyn i sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio'n gynaliadwy ac y byddai cynifer o blant ag y bo modd yn elwa ohono.

Ymhellach, teimlwyd bod angen i ddarparwyr gael cymorth ychwanegol i lywio'r Cod Ymddygiad ADY newydd a sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau statudol oddi tano.

> "Pan gawsom yr arian ASG i ddechrau, aethom ati i edrych ar y nifer o blant y gallem dalu am gymorth ychwanegol iddynt o bosib ac roedd yn nifer gweddol fach o blant. Roeddem yn teimlo na fyddai hynny'n deg oherwydd sut fyddech chi'n penderfynu pa blant yr oeddech yn mynd i'w cefnogi mewn gwirionedd? Ac oherwydd ar y pryd doedd y Ddeddf ADY ddim ond newydd ddod i fodolaeth, a chredwyd bod angen i'r lleoliadau gofal plant gael llawer o gymorth er mwyn gallu deall beth oedd goblygiadau'r Ddeddf ADY newydd iddynt." – Arweinydd Gofal Plant

6.9 Mewn rhai achosion, lle nad oedd awdurdodau lleol wedi defnyddio'r ASG i dalu am Gydgysylltydd ADY neu rôl debyg, y rheswm am hyn oedd diffyg ymwybyddiaeth bod hyn yn bosibilrwydd. Er enghraifft, pan ofynnwyd a oedden nhw'n meddwl bod unrhyw fylchau yn yr hyn y talwyd amdano gan ASG, ymatebodd un awdurdod lleol y byddent yn hoffi gallu gwneud cais i dalu am yr amser roedden nhw'n ei roi i gefnogi lleoliadau i gyflawni eu dyletswyddau ADY. Nid oedd yr Arweinydd Gofal Plant yn yr ardal hon fel petai'n ymwybodol bod awdurdodau lleol eraill yn defnyddio'r gronfa at y diben hwn.

6.10 Doedd hi ddim yn ymddangos bod cysylltiad rhwng ardaloedd oedd yn ariannu cydgysylltydd, neu beidio, a pha mor agos oedden nhw at ddarpariaeth strategol y grant. O'r naw ardal oedd wedi talu am gydgysylltydd, roedd pedair yn awdurdodau darparu a phump yn awdurdodau ymgysylltu.

## Mathau o geisiadau am yr ASG

6.11 Lle'r oedd darparwyr wedi derbyn yr ASG ar gyfer anghenion penodol plentyn, y defnydd mwyaf cyffredin o'r gronfa oedd i wella'r cymarebau staff i blentyn. Dywedodd yr awdurdodau lleol i gyd fod pob cais bron a dderbyniwyd ganddynt am y grant ar gyfer ei ddefnyddio i'r pwrpas hwn a dywedodd pob darparydd a gyfwelwyd eu dod yn defnyddio'r ASG i'r pwrpas hwn hefyd. Cefnogwyd hyn hefyd gan ganfyddiadau'r arolwg: o'r 35 o ymatebwyr i'r arolwg oedd wedi derbyn arian ASG, roedd 32 wedi ei dderbyn ar gyfer staff ychwanegol neu ddwylo i helpu.

6.12 Lle'r oedd yr ASG wedi ei ddefnyddio at ddibenion eraill, roedd hi'n ymddangos bod y rhain yn cael eu defnyddio'n bennaf gyda staffio ychwanegol hefyd. Er enghraifft, o'r 35 o ymatebwyr oedd yn derbyn yr ASG, roedd deg wedi derbyn cyllid ar gyfer

offer, pedwar ar gyfer hyfforddi staff, pedwar ar gyfer costau gweinyddol a thri ar gyfer addasiadau ffisegol i leoliadau, ac roedd pob un ond dau o'r rhain wedi derbyn arian hefyd ar gyfer staff ychwanegol neu ddwylo i helpu.

6.13 Roedd darparwyr a theuluoedd yn gyffredinol yn cytuno bod y math o gymorth y gwnaethpwyd cais amdano drwy'r ASG wedi ei yrru gan anghenion y plentyn. Roedd yr holl ddarparwyr a gyfwelwyd wedi gwneud cais am adnoddau staffio ychwanegol am eu bod yn teimlo ei bod hi'n 'amlwg' o arsylwadau o'r plentyn mai dyma'r cymorth yr oeddent ei angen. Roedd darparwyr hefyd yn gweld mathau eraill o gymorth yn haws cael gafael arno drwy ddulliau eraill. Er enghraifft, dywedodd un darparydd, os byddai angen offer arbenigol arnynt ar gyfer plentyn, roedden nhw'n tueddu eu prynu eu hunain ar gost y busnes fel eu bod yn gallu eu defnyddio ar gyfer plant y dyfodol hefyd, yn lle gorfod ei ddychwelyd i'r awdurdod lleol. Dywedodd un arall nad oedd angen unrhyw gyllid arnynt ar gyfer hyfforddiant am fod y cynnig lleol drwy'r awdurdod lleol yn gynhwysfawr yn barod.

> "Rwy'n teimlo bod yr hyfforddiant yn mynd y tu hwnt i'r gofyn – yr wythnos diwethaf cynigiwyd hyfforddiant awtistig [sic] i ni. Rydym yn cael llawer o hyfforddiant o fewn yr awdurdod lleol." – Lleoliad gofal dydd llawn

6.14 Roedd awdurdodau lleol yn atseinio hyn. Tynnodd un sylw at y ffaith bod llawer o'r plant yn derbyn cefnogaeth yn yr un lleoliad cyn troi'n dair oed, felly efallai eu bod wedi derbyn hyfforddiant ac offer yn barod drwy ffrydiau cyllido eraill cyn iddynt ddod yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Ymhellach, yn ogystal â chynnig hyfforddiant drwy gyllidebau eraill, roedd rhai awdurdodau lleol yn cadw llyfrgell o adnoddau ac offer ADY y gallai darparwyr eu benthyg pan fyddai ADY newydd yn cael ei bennu.

> "Dyma'r cymorth ychwanegol neu ddwylo i helpu fel y galwyd ef gynt. Mae 99% angen cymorth ychwanegol. Rydym wedi prynu offer i un neu ddau o blant sydd ag anghenion dwys lle'r oedden nhw angen cadeiriau arbennig ac unwaith yr oeddent yn mynd i'r ysgol roedden nhw'n cymryd y gadair gyda nhw, felly prynon ni hynny. Dim llawer o hyfforddiant, oherwydd mae gennym gyllideb hyfforddi ac rydym yn gwneud dipyn go lew o hyfforddi y mae'r [tîm ADY] yn ei wneud drwy eu cyllidebau" – Arweinydd Gofal Plant

6.15 Roedd rhai awdurdodau lleol wedi drysu am y gwahaniaeth rhwng staff ychwanegol a dwylo i helpu. Mewn cyfweliadau gyda darparwyr a theuluoedd, roedd hi'n anodd

yn aml iawn i ganfod a oedd yr ariannu wedi ei ddefnyddio ar gyfer dwylo i helpu neu ar gyfer staff ychwanegol am eu bod yn tueddu i gyfeirio at hwn yn fwy cyffredinol fel ‘un i un’. Roedd rhai awdurdodau lleol wedi tynnu sylw hefyd at y ffaith eu bod yn symud tuag at ddefnyddio terminoleg arall i osgoi sefyllfa lle byddai darparwyr a theuluoedd yn disgwyl cyllid ar gyfer cymorth ‘un i un’ traddodiadol. Er enghraifft, roedd un ardal yn defnyddio’r term ‘darpariaeth uwch’ ac yn gweithio gyda lleoliadau i benderfynu ar ‘gyfradd uwch’ briodol ar sail cymhlethdod anghenion plentyn.

### Rhwystrau i ganfod cymorth

6.16 Unwaith y cafodd ariannu ASG ei gymeradwyo, roedd y darparwyr yn gyfrifol am ganfod y cymorth hwn eu hunain. O’r 35 darparydd a ymatebodd i’n harolwg ac a oedd wedi derbyn ariannu ASG, roedd pob un wedi sicrhau o leiaf rywfaint o’r cymorth yr oeddent wedi derbyn arian ar ei gyfer. Er gwaethaf hynny, roedd tua hanner y darparwyr a gyfwelwyd wedi mynegi rhywfaint o anhawster wrth geisio cael gafael ar y cymorth hwn oherwydd problemau gyda chostau a recriwtio.

#### *Costau*

6.17 Dywedodd rhai darparwyr ei bod hi’n anodd dod o hyd i staff ychwanegol oherwydd y lefel o gyllid a ddarparwyd drwy’r ASG. Pan ganiatawyd ariannu ar gyfer staff ychwanegol, anfonodd awdurdodau lleol lythyr at ddarparwyr yn rhoi manylion y cyflog fesul awr y gallent ei gynnig i’r aelod o staff, y nifer o oriau a wythnosau y gellir defnyddio’r cymorth ar ei gyfer a’r dyddiadau y gellir darparu’r cymorth ar ei gyfer. Mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am osod eu cyflog fesul awr eu hunain. Achosodd hyn rywfaint o anawsterau i ddarparwyr oedd wedi gorfod ychwanegu at y cyflog fesul awr yr oedden nhw’n ei gynnig i staff drwy ei hariannau eu hunain, yn enwedig lle mae’r cyflog fesul awr a roddir yn y lwfans ariannu yn is na’r cyflog byw cenedlaethol.

> “Mae’n anodd hurio staff addas sy’n brofiadol, ar gael ac yn adnabod y plentyn am £11 yr awr” – Lleoliad gofal dydd llawn

6.18 Roedd darparwyr yn gyfrifol hefyd am dalu’r costau sy’n gysylltiedig â recriwtio aelod newydd o staff a chostau cyflogaeth e.e. cyfraniadau pensiwn, yswiriant gwladol a chostau gwyliau blynyddol. Roedd hyn yn golygu bod recriwtio staff ychwanegol drwy’r ASG yn ychwanegu baich ariannol ar ddarparwyr.

### *Problemau recriwtio*

6.19 Soniodd darparwyr hefyd am niferoedd isel o staff y blynyddoedd cynnar oedd ar gael yn fwy cyffredinol, yn enwedig y rhai gydag arbenigedd mewn ADY, oedd yn ei wneud yn anodd dod o hyd i ymgeiswyr posibl. Cafodd hyn ei atsain gan un awdurdod lleol oedd wedi newid eu hargymhelliad yn ymwneud â'r lefel cymhwyster yr oedd yn rhaid i staff ei chael er mwyn ceisio ymdrin â'r broblem o gael nifer mor isel o staff.

> "Y peth gyda'r gweithlu yw ein bod wedi dod ar draws sefyllfa ychydig o weithiau lle mae plentyn o bosib angen cymorth ac mae arian ar ei gyfer, ond does dim staff i allu darparu'r cymorth hwnnw. Felly, mae hynny'n ychydig o rwystr… Yn wreiddiol byddem yn argymell person gyda chymhwyster Lefel 3, ond nawr mae mor anodd dod o hyd i hyn…felly rydym wedi dweud y byddwn yn derbyn aelod o staff gyda chymhwyster Lefel 2 ar yr amod eu bod wedi gwneud yr hyfforddiant cynhwysiant." – Arweinydd Gofal Plant

6.20 Cafodd y problemau hyn yn y farchnad hon eu gwaethygu gan y cyflog isel, fel y maent wedi eu hamlinellu uchod, ac amodau tynn y cyllid ASG. Esboniodd un darparydd y gallent ddefnyddio'r cyllid ASG a ddyfarnwyd iddynt dim ond ar gyfer yr wythnosau y mae'r plentyn yn derbyn y Cynnig Gofal Plant. Roedd hyn yn golygu bod y cyllid yn cael ei ddyfarnu am nifer penodol o wythnosau ac roedden nhw'n cael trafferth recriwtio staff am gyfnod mor fyr o amser.

> 'Felly, wyddoch chi, yn enwedig gyda'r Cynnig Gofal Plant, rydym yn dweud mai dim ond am X o wythnosau y byddwch yn cael eich talu a hefyd, oherwydd y ffordd mae'r cyllido'n gweithio, weithiau byddwch yn derbyn e-bost i ddweud bod y plentyn wedi derbyn cyllid o'r dyddiad hwn tan y dyddiad arall. Felly, efallai mai dim ond am gyfnod o 8 wythnos ydyw. Ac felly, mae'n achosi ansicrwydd i'r aelodau hynny o staff a dyma'r rhwystr mwyaf gredaf i.' – Lleoliad gofal diwrnod llawn

6.21 Roedd llawer o ddarparwyr yn ceisio goresgyn y rhwystrau hyn drwy gynyddu oriau'r staff yr oeddent wedi eu cyflogi'n barod. Er enghraifft, gallai aelod o staff oedd yn gweithio am dri diwrnod yr wythnos gytuno i weithio'n llawn amser i helpu i gefnogi plentyn ADY am y ddau ddiwrnod ychwanegol. Roedd darparwyr yn teimlo bod hyn yn gweithio'n dda am ei fod yn gostwng costau recriwtio a chyflogaeth ac yn gostwng yr amser angenrheidiol ar gyfer recriwtio. Roedd recriwtio fel hyn hefyd yn golygu bod y plentyn yn gyfarwydd â'r aelod o staff yn barod, ac roedd hyn yn

fuddiol oherwydd byddai’n achosi llai o ddryswch a gofid iddynt. Soniodd yr awdurdodau lleol i gyd am adael i ddarparwyr ddefnyddio’r grant i gynyddu oriau’r staff sydd ganddynt yn barod. Ond, soniodd rhai darparwyr fod pobl yn eu herio ynglŷn â hynny am fod eu hawdurdod lleol eisiau iddynt gyflogi aelod newydd o staff i sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio ar gyfer oriau ychwanegol, nid i ychwanegu at incwm aelod cyfredol o’r staff yn unig.

## Casgliad

6.22 Roedd gan awdurdodau lleol ddau ddull strategol gwahanol o wario eu dyraniad ASG: dyrannu’r gyllideb gyfan i gefnogi plant unigol neu ddyrannu rhywfaint o’r gyllideb i dalu am Gydgysylltydd ADY hefyd. Pan oedd rhywfaint o’r cyllid wedi ei ddyrannu i dalu am Gydgysyllydd ADY neu swydd debyg, nod hynny oedd sicrhau y gellid defnyddio’r arian i gefnogi cynifer o blant a darparwyr â phosib. Gallai awdurdodau lleol ddefnyddio’r ASG yn hyblyg i ateb eu hanghenion lleol a chyfateb i’r cyd-destun, ac mae’n ymddangos bod hyn wedi bod yn effeithiol.

6.23 Lle gallai darparwyr wneud cais am gymorth uniongyrchol i blentyn penodol, y rheswm pennaf am hyn oedd i gael staff ychwanegol neu ddwylo i helpu am eu bod yn tueddu i dalu am unrhyw hyfforddiant, offer ac anghenion cymorth eraill drwy ffrydiau ariannu eraill, sy’n awgrymu bod yr ASG wedi helpu i lenwi bwlch yn y cyllid i dalu am y cymorth oedd ei angen. Fodd bynnag, soniodd rhai darparwyr eu bod yn dal i wynebu heriau o ran cael gafael ar staff ychwanegol oherwydd problemau gyda recriwtio staff cymwysedig a chostau recriwtio a chyflogaeth ychwanegol nad oedd modd talu amdanynt gyda’r ASG.


# 7. Y broses ymgeisio am yr ASG

7.1 Mae'r bennod hon yn rhoi disgrifiad o'r broses ymgeisio ar gyfer teuluoedd a darparwyr oedd eisiau derbyn yr ASG, a sylwadau gan awdurdodau lleol, darparwyr a theuluoedd am y broses. Mae'n cyfuno canfyddiadau o'r arolwg gyda darparwyr yn ogystal â'r cyfweliadau gydag awdurdodau lleol, darparwyr, a theuluoedd. Adroddir am ganlyniadau rhai o gwestiynau'r arolwg yn ansoddol oherwydd maint sylfaen isel y cwestiynau.

## Y broses ymgeisio am ASG

7.2 Roedd cyfweliadau gydag awdurdodau lleol a darparwyr yn tynnu sylw at y ffaith bod y broses ymgeisio i deuluoedd a lleoliadau oedd eisiau cael yr ASG yn debyg iawn ar y cyfan ar draws yr ardaloedd awdurdodau lleol. Mae Ffigur 7.1 yn dangos y broses gam wrth gam a ddilynwyd gan y mwyafrif o ardaloedd. Roedd pob cam yn amrywio ychydig bach ar draws yr awdurdodau lleol ar sail eu prosesau mewnol ac anghenion y plant ymhob ardal.

**Ffigur 7.1: Y broses gam wrth gam ar gyfer cael yr ASG**




*Cam 1: Adnabod plentyn gydag ADY posibl neu angen posibl am ariannu ASG*

7.3 Yn y mwyafrif o achosion, roedd y darparydd gofal plant a theulu'r plentyn wedi adnabod yr ADY posibl ac wedi ymchwilio pa opsiynau oedd ganddynt i ddarparu cymorth ychwanegol. Byddai'r ADY posibl yn cael ei adnabod fel arfer o arsylwadau a wnaed yn y lleoliad neu gartref, neu am fod y plentyn wedi ymuno â'r lleoliad gydag ADY wedi'i adnabod eisoes. Ar y cam hwn, byddai darparwyr fel arfer yn cysylltu ag aelod o staff yn eu hawdurdod lleol am eu pryderon a'u camau nesaf. Roedd yr aelod hwn o staff yn rhan o dîm oedd wedi ymrwymo i ddarparu cymorth i blant gydag ADY a/neu sy'n derbyn y Cynnig Gofal Plant (e.e. Arweinydd ADY neu Gydgysylltydd Blynyddoedd Cynnar).

7.4 Mewn rhai achosion, roedd y darparydd wedi gwneud y cais heb gysylltu ag unrhyw un yn eu hawdurdod lleol – roedd hyn fwyaf cyffredin ymysg darparwyr mwy oedd

yn gyfarwydd â'r ceisiadau ffrwd ariannu blynyddoedd cynnar neu oedd wedi gwneud cais i'r ASG yn y gorffennol.

7.5 Mewn rhai achosion, roedd awdurdodau lleol yn ymwybodol yn barod am blentyn gydag ADY posibl am fod ganddynt ADY wedi'i gydnabod neu am eu bod yn derbyn cymorth ADY o ffrwd ariannu arall. Yn yr achosion hyn, roedd awdurdodau lleol weithiau'n dechrau'r cyfathrebu gyda'r darparydd gofal plant a'r teulu am eu hopsiynau i gael cymorth ychwanegol. Mewn rhai achosion roedd yr awdurdod lleol wedi cysylltu â darparwyr gofal plant a theuluoedd yn uniongyrchol lle'r oeddent wedi dweud ar eu ffurflen gais Cynnig Gofal Plant i Gymru bod eu plant o bosib angen cymorth ychwanegol.

*Cam 2: Casglu tystiolaeth a chyflwyno'r cais*

7.6 Roedd y cam nesaf yn y broses yn cynnwys casglu tystiolaeth am y plentyn a'u hanghenion i gwblhau a chyflwyno cais ASG i'r awdurdod lleol. Ymhob achos, roedd y darparwyr wedi arwain ar y broses gasglu tystiolaeth hon, er y gofynnwyd yn aml i rieni ddarparu unrhyw dystiolaeth oedd ganddynt i gefnogi'r cais. Yn aml iawn byddai'r wybodaeth oedd yn ofynnol yn cynnwys:

- Data am anghenion datblygiadol
- Blociau adeiladu ar gyfer cyfathrebu[10]
- Cynllun taith ddatblygiadol gynnar
- Proffil un dudalen o anghenion y plentyn
- Adroddiadau neu lythyrau meddygol cysylltiedig perthnasol
- Adroddiadau neu lythyrau perthnasol o leoliadau blaenorol
- Yr hyn roedden nhw eisiau defnyddio'r ASG ar ei gyfer a faint o arian yr oeddent ei angen
- Tystiolaeth am y ffordd y byddai'r ASG yn cefnogi'r plentyn
- Gwybodaeth am y lleoliad a'r cymorth roeddent wedi ei ddarparu'n barod.

7.7 Mewn rhai achosion, roedd y Cydgysylltydd ADY wedi cynghori'r darparwyr i fynd drwy gyfnod ychwanegol o arsylwi, a allai amrywio o gwpwl o wythnosau i gwpwl o fisoedd, er bod hyn yn dibynnu ar raddfa a difrifoldeb anghenion y plentyn. Yn

[10] Mae'r blociau adeiladu ar gyfer cyfathrebu'n cyfateb i ba mor bell y mae'r plentyn wedi datblygu yn eu hiaith a'u lleferydd.

ogystal â hyn, byddai'r awdurdod lleol weithiau'n trefnu arsylwi'r plentyn ei hun. Byddai hyn fel arfer gan seicolegydd addysgol, y cydgysylltydd ADY, gweithiwr ASG yn yr awdurdod lleol, neu debyg, a defnyddiwyd yr adroddiad arsylwi fel tystiolaeth ar gyfer y cais ASG.

7.8 Yna cyflwynwyd y cais i banel amlasiantaeth, yn cynnwys pobl broffesiynol o amrywiaeth o gefndiroedd addysgol a gofal iechyd. Roedd panelau'n cwrdd yn rheolaidd, bob pythefnos neu'n fisol, yn dibynnu ar yr awdurdod lleol.

7.9 I rai teuluoedd, roedd y cam hwn yn digwydd ochr yn ochr â chyfeirio'r plentyn at bobl broffesiynol eraill fel therapyddion galwedigaethol, ymwelwyr iechyd, therapyddion iaith a lleferydd a seicolegwyr addysgol. Ond, efallai bod y plant oedd yn mynd i mewn i'r lleoliad gydag ADY wedi ei adnabod eisoes wedi bod drwy'r prosesau cyfeirio hyn yn barod.

*Cam 3: Y panel amlasiantaeth yn penderfynu a ydynt am gymeradwyo'r cais*

7.10 Yna cyflwynwyd a thrafodwyd y cais gan y panel amlasiantaeth, a benderfynodd p'un a ddylid cymeradwyo'r cais neu a oeddent angen rhagor o dystiolaeth gan y darparydd. Yn y mwyafrif o awdurdodau lleol, roedd y panel yn cyfarfod i drafod yr holl blant gydag ADY, p'un a oedden nhw'n gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant i Gymru ai peidio. Roedd y panel yn trafod anghenion cyffredinol y plentyn a pha gyllid yr oeddent yn gymwys i'w dderbyn. Os oedd y plentyn yn gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant i Gymru, yna byddent yn trafod defnyddio'r ASG. Byddai'r panel yn cael sgyrsiau ynglŷn â dyfarnu'r math penodol o gymorth a geisiwyd, neu a oedden nhw'n teimlo bod math arall o gymorth yn fwy priodol ar sail anghenion y plentyn.

7.11 Dywedodd awdurdodau lleol mai yn anaml iawn y gwrthodwyd ceisiadau i'r ASG oherwydd, erbyn i'r cais gyrraedd y panel, roedd amrywiol sgyrsiau wedi digwydd gyda darparwyr ac roedd y meini prawf cymhwysedd ar gyfer yr ASG wedi eu hamlinellu. Mae'r canfyddiadau o'r arolwg yn cefnogi hyn hefyd. O'r 38 o ymatebwyr oedd wedi gwneud cais i'r ASG, roedd gan y mwyafrif (35) o leiaf un cais llwyddiannus.

7.12 Mewn achosion prin, penderfynodd y panel bod angen mwy o dystiolaeth arnyn nhw am anghenion y plentyn, a gofynnwyd i'r darparydd wneud rhagor o arsylwadau ac ail gyflwyno ei gais. O'r pedwar darparydd a gwblhaodd yr arolwg, yr oedd eu ceisiadau wedi cael eu gwrthod, roedd y prif resymau a roddwyd yn cynnwys diffyg tystiolaeth yn eu cais ac am nad oedd y plentyn y gymwys i gael yr ASG.

7.13 Mae'n bwysig nodi, lle mae awdurdodau lleol yn defnyddio eu panelau asesu ADY i benderfynu cymhwysedd i dderbyn ariannau ASG, mae risg y bydd plant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol nad ydynt yn cyrraedd y trothwy i dderbyn cydnabyddiaeth ffurfiol o ADY yn cael eu heithrio rhag derbyn ystyriaeth ar gyfer cymorth ASG. Mae hyn yn mynd yn erbyn arweiniad ASG, sef bod yr holl blant gydag anghenion cymorth ychwanegol o fewn y cwmpas i dderbyn cymorth ASG.

*Camau 4 & 5: Anfonir llythyr cadarnhau at y darparydd gofal plant sy'n rhoi gwybod i'r teulu ac yn rhoi'r cymorth yn ei le*

7.14 Unwaith y cawsai'r cais ei gymeradwyo, byddai'r awdurdod lleol yn anfon llythyr at y darparydd i gadarnhau bod y cymorth wedi ei roi. Roedd y llythyr yn rhoi manylion y maint yr oedd y darparydd wedi ei dderbyn ac am faint o amser. Yna roedd y darparwyr yn gyfrifol am roi gwybod i'r teulu bod y cymorth wedi ei ddyfarnu ac am roi'r cymorth yn ei le.

7.15 Roedd gofyn i leoliadau gyflwyno anfoneb am y cymorth yr oeddent wedi ei roi yn ei le a'i anfon at eu hawdurdod lleol. Mae awdurdodau darparu'n gyfrifol am wneud taliadau i ddarparwyr, yn hytrach nag awdurdodau ymgysylltu. Felly, roedd gofyn i awdurdodau ymgysylltu gyflwyno eu hanfonebau i'r awdurdod darparu, a fyddai'n gwneud y taliad i'r lleoliadau. Os oedd y cymorth a ddyfarnwyd ar gyfer staff ychwanegol, 'dwylo i helpu', neu fath arall o gymorth parhaus, cyflwynwyd anfoneb yn fisol.

### Sylwadau am broses ymgeisio'r ASG

#### *Darparwyr gofal plant*

7.16 Ar y cyfan, roedd y mwyafrif o ddarparwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil yn fodlon gyda'r broses ymgeisio am ASG. O'r 38 o ddarparwyr a ymatebodd i'n harolwg ac oedd wedi gwneud cais am ASG, roedd 29 yn fodlon gyda'r broses ariannu ASG, ac roedd 14 o'r rhain yn 'fodlon iawn'. Yn ogystal, roedd yr arolwg yn dangos bod y mwyafrif o ddarparwyr bob amser yn derbyn taliadau'n brydlon ac mewn ffordd gywir (21 allan o 38), tra bo nifer llai (10 allan o 38) fel arfer yn derbyn taliadau yn y ffordd yma, ond nid bob amser. Ychydig iawn o ddarparwyr (4 allan o 38) oedd erioed wedi derbyn taliadau'n brydlon ac yn gywir.

7.17 Fodd bynnag, roedd nifer bach o ddarparwyr yn anfodlon gyda'r broses ariannu (3 allan o 38 o ddarparwyr). Mewn cyfweliadau, roedd y rhai nad oeddent yn fodlon wedi dweud eu bod yn anfodlon ynglŷn â faint o amser a gymerodd i brosesu eu

ceisiadau ac i dderbyn cyllid. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn achosion lle'r oedd gan y plentyn anghenion cymhleth iawn lle'r oedd yn hysbys i'r awdurdod lleol cyn troi'n dair oed, neu i'r rhai oedd wedi gorfod ail ymgeisio am arian.

> "Mae'n broses hir iawn ac, i fod yn onest, roeddwn yn disgwyl iddo gael ei wrthod y tro cyntaf." – Darparydd

7.18 Roedd y mwyafrif o ddarparwyr a gwblhaodd yr arolwg yn teimlo bod y cais yr un mor anodd â cheisiadau blynyddoedd cynnar eraill (22 allan o 38 o ddarparwyr), tra bo nifer fechan yn teimlo ei fod yn haws (9 allan o 38 o ddarparwyr) neu'n anoddach (5 allan o 38 o ddarparwyr). Gofynnwyd pam wrth y rhai oedd yn meddwl bod y cais yn anoddach, a'r rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd oedd ei bod hi'n broses hir, bod y gofynion cymhwysedd yn rhy gymhleth, a bod cysylltu â darparwyr gwasanaeth yn anodd ac yn achosi oedi.

7.19 Roedd y mwyafrif o ddarparwyr a gymerodd ran yn y cyfweliadau'n teimlo'n gadarnhaol am yr arweiniad sydd ar gael ar gyfer y broses ymgeisio ac roeddent yn sôn bod eu hawdurdodau lleol yn barod iawn i helpu ac yn ateb unrhyw gwestiynau oedd ganddynt am y broses. Yn yr un modd, o'r 38 darparydd a ymatebodd i'n harolwg ac a oedd wedi gwneud cais am ASG, roedd 23 yn teimlo ei bod yn hawdd cael gafael ar wybodaeth am yr ASG i hysbysu eu ceisiadau, tra bod dim ond chwe darparydd yn meddwl ei fod yn anodd. Roedd pob darparydd a wnaeth gais wedi defnyddio o leiaf un ffynhonnell wybodaeth neu gymorth, a'r mwyaf cyffredin oedd cyswllt yn yr awdurdod lleol, arbenigwr ADY, neu ymarferydd blynyddoedd cynnar gwahanol.

7.20 Fodd bynnag, roedd nifer fechan o ddarparwyr yn teimlo nad oedd yr arweiniad yn ymwneud â chael gafael ar gyllid a chymorth yn ddigon clir:

> "Os gallai rhywun roi ychydig bach mwy o arweiniad i ni drwy ddweud os byddech chi'n gwneud A a B byddech chi'n cael C heb i ni orfod treulio ein nosweithiau ar Google ac yn anfon negeseuon at ein gilydd yn gofyn: A ddylen ni roi cynnig ar hyn wythnos nesa?" – Darparydd

7.21 Dywedodd y mwyafrif o ddarparwyr a lenwodd yr arolwg eu bod yn debygol o argymell yr ASG i ddarparydd blynyddoedd cynnar arall (35 allan o'r 38 o ddarparwyr) ac o wneud cais am fwy o gyllid ASG (35 allan o 38 darparydd).

*Teuluoedd*

7.22 Roedd adborth am y broses ymgeisio am ASG gan deuluoedd yn amrywiol er bod rhieni, ar y cyfan, yn fodlon gyda'r broses a'i chanlyniadau.

7.23 Roedd y mwyafrif o rieni a gyfwelwyd wedi sylwi ar y posibilrwydd bod gan eu plentyn anghenion dysgu ychwanegol cyn iddynt fynd i mewn i'r lleoliad. Soniodd llawer o rieni nad oeddent yn teimlo wedi eu cefnogi gan bobl broffesiynol mewn gofal iechyd i ganfod pa anghenion ychwanegol posib oedd gan eu plentyn a dywedasant fod ymwelwyr iechyd heb fod o gymorth ac wedi gwthio eu pryderon o'r neilltu.

> "Roedden nhw'n dweud drwy'r amser, rhowch chwe wythnos arall iddo, rhowch gwpwl o fisoedd iddo. Roedd ef [y plentyn] wedi methu ei SOG blwyddyn 2 yn ofnadwy, doedd e ddim wedi pasio unrhyw beth o gwbl, ac roedden nhw'n dal i ohirio ei gyfeirio. Felly yn y diwedd, mi es yn breifat." – Rhiant

7.24 Yn y mwyafrif o achosion, unwaith yr oedd yr anghenion ADY wedi eu pennu, roedd y darparydd gofal plant yn cefnogi'r teulu drwy'r broses gyfeirio ac yn arwain ar y broses ymgeisio am ASG gan roi gwybod am y cynnydd diweddaraf i'r teulu'n rheolaidd. Er nad oedd y mwyafrif o rieni'n edrych ar hyn yn negyddol, roedd nifer bychan o rieni wedi sôn eu bod yn difaru nad oeddent wedi cymryd mwy o ran yn y broses. Dywedodd nifer o rieni os na fydden nhw wedi cael lleoliad mor rhagweithiol, bydden nhw wedi cael trafferth cael unrhyw gymorth ychwanegol am nad oedden nhw'n gwybod ei fod ar gael a doedden nhw ddim yn gwybod sut i wneud cais amdano:

> "Maen nhw [darparydd gofal plant] wedi bod yn graig i mi mewn gwirionedd, oherwydd rwy'n gweld fy mod wedi cael mwy o gymorth, mwy o awgrymiadau, mwy o gyngor ganddyn nhw na gan unrhyw un yn y GIG… Heb y feithrinfa, dw i'n meddwl y byddwn i ar goll yn llwyr." – Rhiant

7.25 Thema gyffredin a gododd yn y cyfweliadau hynny oedd bod rhieni'n teimlo bod yn rhaid iddynt 'frwydro' ar bob cam pan oedden nhw wedi sylweddoli y gallai bod ADY gan eu plentyn. Fodd bynnag, er gwaethaf hynny, roedd y mwyafrif o rieni a gyfwelwyd yn teimlo bod eu profiad gyda'r ASG yn gadarnhaol gan fwyaf o'i gymharu â phrofiadau eraill o geisio cymorth.

"Rydw i'n teimlo fod y brwydro i gyd wedi bod werth yr ymdrech oherwydd rydym wedi symud ymlaen yn awr, ond eto brwydr am wasanaethau ydy hi drwy'r amser." – Rhiant

### *Awdurdodau Lleol*

7.26 Roedd yr awdurdodau lleol i gyd wedi symleiddio'r cais ASG yn rhan o'u gwaith cyffredinol mewn perthynas ag ADY ac, o ganlyniad i hynny, roedden nhw'n teimlo'n gadarnhaol am y broses ymgeisio. Roedd y mwyafrif yn teimlo'n gadarnhaol am yr arweiniad a ddarparwyd a'r amser a gymerodd i brosesu ceisiadau.

7.27 Pan ofynnwyd a oedd unrhyw beth y byddent yn ei wneud i wella'r broses, roedd nifer bychan o awdurdodau ymgysylltu'n teimlo fod bodolaeth rolau darparu ac ymgysylltu'n ychwanegu camau dianghenraid ac y gallent gymhlethu elfennau penodol am fod gan bob awdurdod lleol brosesau gwahanol[11]:

"Dydy'r ASG ddim yn gysylltiedig â nhw [eu hawdurdod darparu], dydyn nhw ddim yn gwneud y penderfyniadau, dydyn nhw ddim yn gwneud y gwaith, a dydyn nhw ddim yn talu'r lleoliadau – ni sy'n gwneud hynny. Ac yna mae'n rhaid i ni ei hawlio yn ôl ganddynt, ac mae'n rhaid iddyn nhw ei hawlio'n ôl gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n teimlo fel dolen ychwanegol wirion nad oes angen iddi fod yno" – Arweinydd Gofal Plant

7.28 Ymhellach, soniodd rhai awdurdodau ymgysylltu nad oedden nhw'n gallu cael trosolwg o'u cyllideb ASG, oherwydd dim ond i awdurdodau darparu yr oedd y wybodaeth hon ar gael, ac roedd hynny'n golygu ei bod hi'n anodd iddyn nhw reoli'r grant a bod angen llawer o 'fynd a dod' rhyngddyn nhw a'u hawdurdod darparu.

"Os gallwn ni gael un system yn ei lle, lle gallaf lwytho popeth i fyny yn lle e-bostio popeth draw, dw i'n meddwl y byddai hynny'n haws. Ar gyfer diogelu data hefyd." – Arweinydd Gofal Plant

## Casgliad

7.29 Ar y cyfan, roedd lefelau uchel o foddhad gyda'r broses ymgeisio am yr ASG ymysg awdurdodau lleol, darparwyr gofal plant a theuluoedd. Er bod y broses yn gweithio'n dda, soniodd rhai ymatebwyr am feysydd i'w gwella y gellid eu hystyried wrth symud ymlaen. Er enghraifft, roedd nifer bychan o ddarparwyr yn anfodlon gyda hyd a

[11] Mae awdurdodau darparu'n gyfrifol am wneud taliadau i ddarparwyr, yn hytrach nag awdurdodau ymgysylltu. Felly roedd angen i awdurdodau ymgysylltu gyflwyno eu hanfonebau i'w hawdurdod darparu, a fyddai'n gwneud y taliad i leoliadau.

chymhlethdod y broses o wneud cais i’w hawdurdod lleol tra bo rhai awdurdodau lleol yn teimlo y gallai dileu rolau awdurdodau ‘darparu’ ac ‘ymgysylltu’ helpu i symleiddio’r broses. Yn ogystal, gallai defnyddio prosesau ADY a phanelau i ystyried y defnydd a wneir o’r ASG olygu bod rhai plant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol yn colli allan ar gyllido ASG.

# 8. Y canlyniadau i ddarparwyr, plant, a'u teuluoedd

8.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o ganlyniadau derbyn yr ASG i ddarparwyr a theuluoedd, a welwyd gan staff lleoliadau a rhieni ac a nodwyd yn ystod yr arolwg a chyfweliadau ansoddol.

## Y canlyniadau i'r plentyn unigol sy'n derbyn cymorth

8.2 Roedd darparwyr a rhieni yn gyffredinol gadarnhaol am effeithiau cyllido ASG ar y plentyn unigol sy'n derbyn cymorth.

### *Datblygiad cyffredinol y plentyn*

8.3 O'r 35 darparydd oedd wedi derbyn ariannu ASG, roedd 28 wedi cytuno bod cyllido ASG wedi cynyddu ansawdd y cymorth y maen nhw'n ei roi i blant gydag ADY, tra bod tri ddim yn cytuno nac yn anghytuno, a thri yn anghytuno. Gwelwyd rhai gwahaniaethau yn ôl y math o leoliad. Er enghraifft, roedd y ddau warchodwr plant a dderbyniodd gyllid yn fwy amwys tuag at ei effaith ar y plentyn, a doedd y ddau ddim yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r datganiad hwn. Ar y llaw arall, roedd y lleoliadau hynny a wnaeth gais am hyfforddiant staff yn gadarnhaol iawn am ansawdd y cymorth a roddwyd o ganlyniad i'r ASG, ac roedd pob un o'r pum lleoliad a wnaeth gais am hyn yn cytuno bod y cymorth wedi gwella.

8.4 Soniwyd yn gyffredin mewn cyfweliadau â darparwyr a theuluoedd am y ffaith bod ansawdd y cymorth yn well, ynghyd â'r farn bod hyn wedi helpu datblygiad cyffredinol y plentyn yn sylweddol. Soniodd y darparwyr a'r teuluoedd hefyd bod plant wedi symud ymlaen yn amlwg yn eu datblygiad ers derbyn y cymorth ychwanegol ac roeddent yn teimlo y byddai hyn yn dod â budd tymor hir cadarnhaol i'r plentyn.

> "I ddechrau, ni fyddai'n mynd yn agos at y lle paentio… ac o fewn tua chwe mis o gael sylw un i un, roedd yn paentio wrth yr îsl drwy'r amser ac roedd yn ymuno â'r chwarae gyda'r toes." – Lleoliad gofal dydd llawn

### *Cyfathrebu a sgiliau cymdeithasol*

8.5 Yn ogystal â chyfrannu at helpu plant i gyflawni targedau datblygiad allweddol, roedd y cymorth ychwanegol yn chwarae rôl allweddol mewn gwella gallu plant gydag ADY i ryngweithio â'u cyfoedion. Yn yr arolwg, cytunodd 27 allan o 35 o ddarparwyr bod derbyn yr ASG wedi arwain at sefyllfa lle'r oedd gan blant gydag ADY ymgysylltiad amlach neu ymgysylltiad o well ansawdd gyda'u cyfoedion, a dim

ond pump oedd ddim yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd dau yn anghytuno. Roedd y cytundeb yn amrywio ychydig bach yn ôl y math o gymorth a dderbyniwyd: roedd 10 allan o 11 o'r darparwyr oedd yn darparu 'dwylo i helpu' wedi cytuno bod cymorth wedi gwella ymgysylltiad y plentyn gyda chyfoedion, o'i gymharu ag 19 allan o 25 o ddarparwyr sy'n darparu 'staff ychwanegol'.

8.6 Soniwyd am welliannau tebyg mewn sgiliau cymdeithasol yn ystod cyfweliadau. Cafodd y rhyngweithio a gafwyd effaith gadarnhaol ar les a datblygiad y plentyn, yn enwedig i'r plant gydag awtistiaeth neu oedi yn eu hiaith a'u lleferydd. Er enghraifft, soniodd rhai plant bod eu plentyn yn dysgu ymddygiadau cadarnhaol gan blant eraill nawr yr oeddent yn rhyngweithio'n amlach. Soniodd eraill fod plant oedd yn arfer eu hynysu eu hunain oddi wrth y prif grŵp wedi dod yn llawer mwy cyfforddus yn rhyngweithio gyda phlant eraill, a hyd yn oed yn chwilio am ryngweithio cymdeithasol weithiau. Yn wir, soniodd un rhiant bod eu meithrinfa'n anfon lluniau rheolaidd at rieni eu plant yn y lleoliad: cyn y cymorth, bydden nhw ond yn gweld eu plentyn yn y cefndir, ond ers derbyn cymorth 1:1 drwy'r ASG roedd y lluniau'n aml yn eu dangos nhw'n rhyngweithio gyda'r plant eraill i gyd.

8.7 Soniodd rhieni bod cael gweithiwr cymorth ychwanegol yn allweddol i ddarparu amgylchedd diogel i'r plentyn archwilio'r rhyngweithio newydd hwn. Soniodd nifer bod y plentyn wedi datblygu bond cryf gyda'u gweithiwr cymorth oedd yn eu gwneud nhw'n fwy agored i'w hawgrymiadau am weithgareddau. Roedd presenoldeb rhywun oedd yn eu deall nhw hefyd yn rhoi tawelwch meddwl i'r plentyn os byddai'r gweithgaredd yn eu llethu.

> "Yn amlwg dydy hi ddim yn gallu cychwyn y sgwrs honno, felly roedd o gymorth iddi allu gwneud pethau gyda'r plant eraill ac yn rhoi'r cysur iddi o gael rhywun cyfarwydd yno os oedd hi'n teimlo dan straen." - Rhiant

### *Trosglwyddo i'r ysgol*

8.8 Roedd y sgiliau cymdeithasol gwell hyn, ochr yn ochr â'r arfer o fynd i leoliad gofal plant bum diwrnod yr wythnos, yn helpu i baratoi plant ar gyfer trosglwyddo i'r ysgol. Soniodd nifer o leoliadau am sefyllfaoedd lle'r oedd y cymorth ychwanegol wedi caniatáu i blentyn fynd i ysgol brif ffrwd yn lle darpariaeth arbenigol.

> "Roedd gennym un bach, a ddaeth atom yn methu siarad o feithrinfa arall. Cafodd ASG ac yn awr mae wedi mynd i ysgol brif ffrwd Gymraeg. Dyna'r gwahaniaeth y gallwn ei wneud!" – Lleoliad gofal dydd llawn

8.9 Roedd y mwyafrif o blant yn awr yn mynd i'r ysgol, yn gyffredinol mewn darpariaeth arbenigol, ac roedd rhieni'r rheiny mewn darpariaeth arbenigol yn dal i sôn bod cymorth wedi'i ariannu gan ASG wedi esmwytho'r trosglwyddiad i mewn i addysg.

> "[Heb y cymorth] mae'n sicr na fyddai wedi bod yn mynd bum niwrnod yr wythnos, ac fel y dywedais mae'n gwneud i chi ofyn sut y byddai wedi trosglwyddo i'r ysgol – byddai mynd o ddau neu dri diwrnod i bum niwrnod wedi bod yn anodd iawn iddo, anodd iawn i ni." - Rhiant

## Canlyniadau i blant eraill yn y lleoliad

8.10 Soniodd y darparwyr hefyd bod ASG wedi cael effaith ehangach y tu hwnt i blant penodol yn derbyn cymorth ychwanegol. O'r 35 o ddarparwyr a ymatebodd i'r arolwg ac a oedd wedi derbyn cyllid ASG, roedd 23 wedi cytuno bod y cyllido wedi gwella ansawdd y cymorth y gallent ei roi i'r plant i gyd, doedd wyth ddim yn cytuno nac yn angytuno a dim ond tri oedd yn anghytuno. Roedd rhai gwahaniaethau yn ôl y math o leoliad. Er enghraifft, roedd pob un o'r pum lleoliad oedd wedi derbyn cyllid ar gyfer hyfforddiant staff yn cytuno gyda'r datganiad, tra bo dim ond 16 o'r 25 oedd wedi derbyn arian ar gyfer staff ychwanegol wedi cytuno.

8.11 Roedd hyn wedi ei adlewyrchu yn y cyfweliadau gyda darparwyr lle'r oedd y mwyafrif wedi nodi bod yr ASG wedi caniatáu mwy o hyblygrwydd iddyn nhw i gefnogi'r rheiny gydag ADY heb ostwng y cyfleoedd sydd ar gael i blant eraill. Felly, pwysleisiodd nifer o leoliadau eu bod, ers derbyn y cyllid ASG, wedi gallu darparu gwell gofal i blant eraill yn ogystal â'r plant oedd yn derbyn y cymorth yn uniongyrchol. Roedd y rhesymau am hyn yn perthyn i ddau brif gategori:

1. Roedd staff oedd wedi gorfod treulio amser yn y gorffennol yn sicrhau bod plentyn yn ddiogel a bod ei ymddygiad yn cael ei reoli, yn derbyn cefnogaeth aelod ychwanegol o staff erbyn hyn a allai ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwnnw. O ganlyniad, gallent ymrwymo mwy o'u hamser yn edrych ar ôl plant eraill.
2. Roedd ymddygiad niweidiol gan y plentyn gydag ADY yn llawer llai cyffredin oherwydd cynnydd y plentyn o ganlyniad i'r cymorth ychwanegol. Felly roedd plant eraill wedi profi llai o amhariad i'w gweithgareddau ac yn llai tebygol o "ddynwared" ymddygiadau negyddol.

8.12 Roedd gan ddarparwyr hefyd fwy o hyblygrwydd yn yr amrywiaeth o weithgareddau y gallent eu rhedeg. Yn arbennig, cyn y cymorth, gallai rhai lleoliadau ond rhedeg gweithgareddau oedd yn addas i'r plentyn gydag ADY, ond yn awr mae ganddynt y

gallu i wahanu plant yn grwpiau i wneud gweithgareddau wedi eu teilwra i'w hanghenion.

> "Efallai nad ydyn nhw'n hoffi mynd tu allan, felly mae'n rhaid i'r plant i gyd golli allan ar hynny nes y gallwn ddrafftio staff pellach i mewn i'w cael nhw i fynd allan. Felly, mae'n effeithio ar lawer o wahanol bethau, ac ar ysbryd y staff hefyd." – Lleoliad gofal dydd llawn

## Canlyniadau i deuluoedd

8.13 O'r 35 o ddarparwyr a ymatebodd i'r arolwg ac oedd wedi derbyn ariannu ASG, cytunodd 25 ei fod wedi cynyddu hyder rhieni plant gydag ADY neu ADY posibl. Cafwyd rhai gwahaniaethau yn ôl y math o leoliad: fel o'r blaen, roedd y pum darparydd a dderbyniodd gyllid ar gyfer hyfforddiant staff oll yn cytuno gyda'r datganiad hwn, o'i gymharu ag 18 o'r 25 darparydd a dderbyniodd gyllid ar gyfer staff ychwanegol.

8.14 Roedd y cynnydd hwn yn hyder y rhieni yn amlwg mewn sgyrsiau gyda rhieni hefyd. I deuluoedd y plant oedd yn derbyn cymorth, y prif ganlyniad y soniwyd amdano oedd eu bod yn teimlo'n fwy hyderus yn cymryd eu plentyn i'r lleoliad. Yn gyffredinol, roedd gwybod bod eu plentyn yn derbyn cymorth ychwanegol yn tawelu meddwl rhieni bod eu plentyn yn ddiogel, ac yn gostwng llawer o'r straen o adael eu plentyn yn y lleoliad. Er enghraifft, dywedodd un rhiant bod y plentyn yn hapusach erbyn hyn yn mynd i'r lleoliad ers derbyn y cymorth, a bod hyn yn ei gwneud hi'n haws iddyn nhw adael y plentyn:

> "Mae wrth ei fodd yn mynd a dyna'r prif beth, wyddoch chi, does dim dagrau pan fyddaf yn ei adael, mae'n rhedeg i mewn! Roedd yn awyddus iawn bore ma, sy'n tawelu meddwl rhywun. Mae hynny'n tynnu llawer o'r straen a'r pwysau, does gen i ddim pryderon yn ei adael" - Rhiant

8.15 Canlyniadau eraill y soniodd rhieni amdanynt oedd gallu cynyddu eu horiau gweithio, gwario mwy o arian yn gwneud pethau gyda'u plant eraill, a'r ffaith ei fod wedi eu helpu nhw i wybod pa weithgareddau i'w gwneud gyda'u plentyn adref. Roedd pob rhiant y buom yn siarad â nhw'n dweud y byddent wedi ei chael hi'n anodd cadw eu plentyn mewn lleoliad gofal plant heb yr arian. Roedd llawer yn meddwl na fyddai eu plentyn wedi gallu mynd i'r lleoliad gofal plant, naill ai am eu

bod yn credu na fyddai'r lleoliad wedi cymryd y plant, neu am na fyddent wedi bod yn ddigon hyderus i adael eu plentyn heb gymorth ychwanegol.

> "Dywedon nhw wrthyf pan drodd yn dair oed y llynedd nad oedden nhw'n teimlo y byddai'n ddiogel iddo fod yn y feithrinfa heblaw bod ganddo rywun un-i-un gydag ef." – Rhiant

8.16 Yn ôl rhai rheini, os na fyddent wedi derbyn y cymorth, bydden nhw wedi gorfod gostwng eu horiau gwaith i ofalu am y plentyn neu roi'r gorau i'r gwaith yn gyfan gwbl oherwydd pryderon am ddiogelwch y plentyn yn y lleoliad. Soniodd un teulu bod un rhiant wedi rhoi'r gorau i'w swydd pan oedden nhw'n cael trafferth dod o hyd i gefnogaeth, a bod hyn wedi rhoi straen enfawr ar y teulu.

8.17 Yn ogystal â chrybwyll yr opsiynau hyn, dywedodd llawer o rieni y byddent wedi ceisio talu am y cymorth un-i-un hyn eu hunain ar er mwyn caniatáu i'w plentyn fynd i'r lleoliad. Ond, roedd pawb a awgrymodd hyn yn meddwl y byddai hyn wedi achosi anawsterau ariannol i'r teulu, a dywedodd nifer y byddent wedi gorfod gofyn i aelodau eraill o'r teulu am gyfraniad. Dywedodd un rhiant na fyddent wedi gallu talu am ofal llawn amser, a fyddai wedi gwneud trosglwyddiad eu plentyn i'r ysgol yn anoddach.

### Y canlyniadau i'r darparwyr

8.18 O'r 35 darparydd oedd wedi derbyn arian ASG, cytunodd deg ei fod wedi peri i fwy o blant allu cael y Cynnig Gofal Plant i Gymru, tra bo saith wedi anghytuno a doedd y mwyafrif (18) ddim yn gwybod. Mae hyn yn adlewyrchu'r ymateb cymysg gan ddarparwyr i'r cwestiwn a fydden nhw wedi parhau i ddarparu cymorth i'r plentyn p'un a oedden nhw wedi derbyn yr ASG ai peidio. Yn wir, o'r 33 darparydd oedd wedi mynd yn eu blaenau i sicrhau cymorth drwy'r ASG, dywedodd 12 y byddent wedi darparu'r cymorth hwn i'r plentyn hyd yn oed os nad oeddent wedi derbyn y cyllid, dywedodd 13 y byddent heb wneud hynny a dywedodd wyth nad oedden nhw'n gwybod. O'r 12 a ddywedodd y byddent wedi darparu'r cymorth beth bynnag, dywedodd wyth y byddent wedi ariannu hyn fel cost busnes.

8.19 Roedd yr ansicrwydd a oedd yr ASG wedi cynyddu'r niferoedd oedd yn cael y Cynnig Gofal Plant, wedi ei adlewyrchu mewn sgyrsiau gyda darparwyr, lle'r oedd llawer wedi dweud y byddent wedi parhau i gynnig cymorth i'r plentyn, p'un a oedden nhw wedi derbyn cyllid ASG ai peidio. Dydy hynny ddim yn golygu nad yw'r ASG yn hanfodol i ddatblygiad y plentyn, ond yn hytrach bod llawer o ddarparwyr yn

teimlo ei bod hi'n ddyletswydd arnynt i beidio gwrthod plentyn ac felly y bydden nhw wedi parhau i ddarparu gofal i'r plentyn, er eu bod nhw'n cydnabod bod hyn yn achosi nifer o heriau i'r lleoliad.

> "Cafwyd adegau lle'r ydym wedi ei ariannu ein hunain… ond yn amlwg dydy hynny ddim yn gynaliadwy am amser hir. Cynigiodd un rhiant dalu am aelod un-i-un o staff eu hunain hefyd, ond yn amlwg doeddem ni ddim eisiau derbyn hynny oherwydd ddylai rhiant ddim gorfod gwneud hynny." Lleoliad gofal dydd llawn

8.20 Pan oedd darparwyr yn amharod i ddweud y byddai plant a dderbyniodd yr ASG wedi cael eu gwrthod heb yr ariannu, roedd y dymuniad cryf hwn i gynnig lle i'r plant hyn weithiau'n arwain at gyfaddawdu ansawdd y gofal. Felly, awgrymodd nifer ohonynt y byddent yn ceisio 'defnyddio beth oedd ganddynt' neu 'ganfod ffordd rywsut' heb yr ariannu. Awgrymodd nifer o ddarparwyr, oherwydd diffyg adnoddau, na fydden nhw wedi hurio staff ychwanegol i gefnogi'r plant gydag ADY, sy'n golygu y byddent wedi creu amgylchedd anniogel o bosib, gan ostwng ansawdd y gofal a roddwyd i'r plant eraill ac effeithio'n negyddol ar ysbryd y staff. Awgrymodd un arall y byddai'n rhaid i reolwyr weithio oriau goramser o ganlyniad i hyn.

> "Mae'n anodd iawn iawn pan fydd plentyn angen y lefel honno o gymorth a dydy'r lefel honno ddim yno…felly, efallai y bydd rhaid i reolwr fynd i mewn i ystafell, sydd wedyn yn effeithio ar rôl ein swydd. Yna rydym yn gweithio ar y penwythnos, gyda'r nosau, i ddal i fyny oherwydd ei bod hi mor bwysig i'r plentyn hwnnw gael y gefnogaeth honno." – Lleoliad gofal dydd llawn

8.21 Er gwaethaf yr amharodrwydd hwn i sôn am wrthod plant, dywedodd nifer o ddarparwyr y byddai eu lleoliad o bosib wedi gorfod gwneud hynny os na fyddai'r cyllid wedi bod ar gael, hyd yn oed os bydden nhw wedi rhoi cynnig ar lwybrau eraill cyn gwneud hynny. Y rheswm am hynny fel arfer oedd pryderon am ddiogelwch. Yn yr un modd, dywedodd nifer o rieni bod eu darparydd wedi dweud wrthynt nad oedd modd iddyn nhw gymryd eu plentyn heb y cymorth ychwanegol, ac roedden nhw'n sôn yn aml bod darparwyr wedi eu gwrthod yn y gorffennol, naill ai am nad oedden nhw wedi gallu cael gafael ar gymorth, neu doedden nhw ddim yn gwybod ei fod ar gael. Felly, efallai bod gan y darparwyr y buom yn siarad â nhw ddiddordeb arbennig mewn ADY ac felly roedden nhw'n fwy tebygol o geisio rhoi lle i'r plant yma.

“Gynted ag y soniais ei fod yn gymorth 1 i 1, roedden nhw wedi dweud nad oedd ganddyn nhw’r nifer o staff i ateb ei gofynion hi…felly roedd y peth yn teimlo’n ddigalon mewn gwirionedd.” - Rhiant

8.22 Er y byddai plant gydag ADY yn dal, mewn rhai achosion, wedi gallu cael gafael ar y Cynnig Gofal Plant heb ariannu ASG, roedd yr ASG yn sicrhau bod darparwyr gofal plant yn gallu ateb anghenion y plentyn yn gyson heb gyfaddawdu’r amodau i’r staff a’r plant eraill. Er enghraifft, o’r 35 o ddarparwyr a gwblhaodd yr arolwg ac a oedd wedi derbyn yr ASG, cytunodd 28 ei fod wedi gwneud pethau’n haws i’r staff yn y lleoliad i ddarparu cymorth o safon i blant gydag ADY neu ADY posib. Mae hyn yn dangos, er bod lleoliadau o bosib wedi gallu darparu rhyw lefel o gymorth beth bynnag, roedd cyllido ASG wedi ei gwneud hi’n haws darparu’r cymorth hwn, ac wedi gwella ansawdd y cymorth a ddarparwyd fel bod y plant gydag ADY yn gallu cael gafael ar ofal plant yn ddiogel. Roedd darparwyr hefyd yn tueddu i gytuno bod cyllido ASG wedi cyfrannu at ddatblygiad staff. O’r 35 o ddarparwyr a dderbyniodd yr ASG, cytunodd 23 ei fod wedi cynyddu eu gwybodaeth o ADY, neu eu hymwybyddiaeth ynglŷn â sut i gefnogi a darparu gofal i blant gydag ADY. Yn y pum achos lle’r oedd yr ASG wedi ariannu hyfforddiant staff yn benodol, roedd pob un o’r pum lleoliad yn cytuno â’r ddau ddatganiad. Mae hyn yn dangos bod yr hyfforddiant a ddarparwyd yn llwyddiannus o ran gwella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y staff. Roedd y rhai oedd wedi cyflogi aelod ychwanegol o staff hefyd yn cytuno gyda’r ddau ddatganiad yn gyffredinol (roedd 16 ac 17 allan o 25 wedi cytuno), gan awgrymu bod cael aelod arbenigol o staff o bosib wedi helpu staff eraill yn y lleoliad i ddatblygu eu sgiliau a’u gwybodaeth am ADY.

## Casgliad

8.23 Yn gyffredinol, roedd y darparwyr a’r teuluoedd wedi dweud bod ariannu ASG wedi cael effaith gadarnhaol ar y plant yr oedd yn ei gefnogi, ac i raddau ychydig bach llai, ar eu teuluoedd. Ymhob achos, soniwyd bod y plant yn symud ymlaen yn sylweddol yn eu datblygiad yn dilyn cyflwyno cymorth ychwanegol. Mewn llawer o achosion roedd hyn wedi caniatáu iddyn nhw gyrraedd cerrig milltir allweddol. Roedd yr effaith ar ddarparwyr yn fwy cymysg, ac roedd llawer o ddarparwyr yn honni y byddent wedi ceisio darparu cymorth i’r plant beth bynnag. Fodd bynnag, roedd perygl y byddai’r cymorth hwn o ansawdd is oherwydd bod adnoddau wedi eu hymestyn cymaint o fewn y lleoliad os nad oedd cyllido ychwanegol.

# 9. Casgliadau

9.1 Mae'r bennod hon yn crynhoi prif ganfyddiadau'r ymchwil ac y-n trafod eu goblygiadau ar gyfer gweithredu'r ASG. Mae'r bennod hon yn dod i ben gyda chyfres o argymhellion i randdeiliaid polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chynllun a darpariaeth yr ASG wrth symud ymlaen.

9.2 Canfu'r ymchwil bod awdurdodau lleol wedi croesawu'r ASG fel adnodd angenrheidiol iawn i helpu gyda'u hymateb i'r galw cynyddol am gymorth ychwanegol i blant gydag ADY. Roedd yr adborth gan awdurdodau lleol yn dangos eu bod wedi buddsoddi llawer iawn o feddwl mewn datblygu prosesau i wneud defnydd effeithiol o'r grant a'i integreiddio yn y gyllideb gyffredinol a ddyranwyd ar gyfer cymorth ADY yn eu meysydd perthnasol.

9.3 Canfu'r ymchwil fodel cyffredin ar y cyfan o brosesu ceisiadau am y grant, gydag elfen o deilwra gan awdurdodau lleol, i sicrhau bod y broses yn briodol ac yn berthnasol i'r cyd-destun yn eu meysydd perthnasol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, roedd awdurdodau lleol yn defnyddio panelau amlasiantaeth oedd wedi eu sefydlu i ystyried ADY fel mecanwaith i ddosbarthu ASG, gan olygu y byddai rhai plant gydag anghenion cymorth ychwanegol ond heb ADY wedi'i bennu yn gallu colli allan.

9.4 Defnyddiwyd y cyllido grant yn fwyaf cyffredin i gynyddu'r nifer o staff mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar i gynyddu cymarebau plant-staff lle bo'r angen ac i sicrhau diogelwch y plentyn sydd ag ADY yn ogystal â'r plant eraill yn y lleoliad. Er bod y staff ychwanegol yn darparu cymorth angenrheidiol iawn ar unwaith i'r plentyn a'r lleoliad, roedd y math hwn o gymorth yn hynod o ddibynnol ar ddarpariaeth y cyllid ar gyfer y swydd ychwanegol, ac roedd hyn yn golygu bod risg o derfynu'r cymorth os byddai'r ariannu'n dod i ben. Hefyd, defnyddiwyd yr ariannu grant ar gyfer hyfforddiant, i wella sgiliau staff mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar wrth weithio gyda phlant gydag amrywiol ADY, ac mewn nifer bychan o awdurdodau lleol, i ariannu rôl cydgysylltydd ADY, naill ai'n rhannol neu'n llawn. Roedd yr adnoddau hyn yn tueddu bod yn fwy cynaliadwy a bod â'r potensial i gael effaith dymor hirach i'r plant a'r darparwyr.

9.5 Mae'r dystiolaeth mewn perthynas â gwariant a lefelau boddhad yn awgrymu bod gweithrediad yr ASG, ar y cyfan, wedi bod yn effeithiol i ryw raddau. Lle gwelwyd ADY, mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol a darparwyr blynyddoedd cynnar wedi cydweithio'n effeithiol, gan ddod i ddealltwriaeth ynglŷn â pha dystiolaeth oedd

yn ofynnol ar gyfer y cais a beth yw'r ffordd orau o'i sicrhau, gan gytuno pa gymorth i'w roi ar waith a dyrannu'r arian ar gyfer rhoi'r cymorth yn ei le. Dywedwyd bod y mwyafrif llethol o geisiadau'n llwyddiannus, gan olygu ei fod yn beth prin i angen a bennwyd gael ei adael heb ei ddiwallu. Ar y cyfan, roedd teuluoedd a darparwyr yn fodlon ac yn sôn am newidiadau cadarnhaol i'r plentyn, y teulu a'r lleoliad yn gyffredinol.

9.6 Wedi dweud hynny, canfu'r ymchwil nifer o heriau a phroblemau'n ymwneud â gweithrediad yr ASG:

9.6.1 Soniodd awdurdodau lleol eu bod wedi gorfod llywio system gymhleth o ffrydiau ariannu, yr oedd yr ASG yn un ohonynt. Ychwanegodd hyn gymhlethdod i'r broses ariannu, am fod yn rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn asesu'r meini prawf cymhwysedd ac yn defnyddio'r ffrwd ariannu gywir ar gyfer yr amrywiaeth eang o wahanol achosion yr oeddent yn ymdrin â hwy. Mae gweithio gyda system gymhleth a dyrys yn achosi risg o anwybyddu opsiynau ariannu, sy'n gallu golygu y gallai teuluoedd cymwys golli allan.

9.6.2 Roedd y lefelau o ddealltwriaeth am strwythurau dyrannu'r ASG yn amrywio rhwng ac o fewn awdurdodau lleol. Roedd rhai awdurdodau lleol yn ymwybodol y gallent gyflwyno achos busnes i gynyddu eu hariannu, os byddent angen gwneud hynny, ond doedd awdurdodau lleol eraill ddim yn ymwybodol o hynny. Mae hyn yn golygu nad oedd awdurdodau lleol bob amser yn defnyddio'r ffrwd ariannu ASG yn llawn i ateb eu hanghenion.

9.6.3 Roedd lefelau amrywiol o ymwybyddiaeth o'r ASG ymysg darparwyr a theuluoedd. Roedd adborth gan awdurdodau lleol yn awgrymu bod rhywfaint o hyn yn fwriadol, am fod awdurdodau lleol yn cyfyngu ar ba mor eang oedd eu cyfathrebu am yr ASG, i osgoi'r risg y byddai'r galw am gyllido ASG yn mynd yn uwch na'r capasiti. Ond, roedd hi'n ymddangos bod ymwybyddiaeth yn amrywio hefyd yn ôl y math o leoliad, gyda lleoliadau bach, preifat a gwarchod plant yn tueddu bod leiaf ymwybodol o'r grant. Mae hyn yn golygu bod yna botensial i blant a theuluoedd golli allan am nad ydyn nhw'n ymwybodol o'r opsiwn i ariannu cefnogaeth drwy'r ASG. Yn ogystal, gallai rhai darparwyr gael trafferthion cefnogi plant gydag anghenion cymorth ychwanegol yn briodol os nad oes cyllido ASG.

9.7 Canfu'r gwaith ymchwil bod y mwyafrif o'r ceisiadau a wnaed i'r ASG ar gyfer plant oedd yn derbyn gofal plant yn barod, ond oedd angen cymorth ychwanegol i'w galluogi i dderbyn gofal plant yn fwy diogel a sicrhau'r budd mwyaf i'r plentyn. Mewn

rhai achosion, roedd hi'n hysbys bod ADY gan y plant cyn iddyn nhw ddechrau mynd i'r lleoliadau (neu cyn iddyn nhw ddod yn gymwys ar gyfer y Cyngor Gofal Plant, hynny yw, cyn iddyn nhw droi'n dair oed), ond nid oedd y trafodaethau am ba gymorth oedd angen ei drefnu a'r cais am gyllido wedi cychwyn nes eu bod yn ymgartrefu yn y lleoliad ac yr oedd angen cymorth ychwanegol ar y lleoliad. Mewn achosion eraill, nid oedd plant wedi cael eu hadnabod eto fel rhai gydag ADY a doedd eu hymddygiadau oedd angen cymorth ychwanegol ddim ond wedi eu canfod pan oedden nhw wedi dechrau mynd i'r lleoliad pan ddaethent yn gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant. Roedd pob darparydd a gyfwelwyd wedi nodi, yn yr achosion yr oedden nhw wedi cymryd rhan ynddynt i adnabod ADY, ei bod hi'n anarferol iawn i blentyn ddod atynt wedi cael asesiad ffurfiol yn barod neu gyda chynllun gofal yn ei le. Mae'n ymddangos bod y broses o drefnu ac ariannu cymorth yn cael ei wneud yn adweithiol gyda gweithgaredd cyfyngedig i wneud cynlluniau rhag blaen am y cymorth y byddai'r lleoliad efallai ei angen. Gallai hyn helpu gyda gwaith rheoli ariannol yr ASG a gyda gwella'r cymorth a roddir i blant.

9.8 Mae'r heriau a'r problemau hyn yn awgrymu, er bod gweithrediad yr ASG fel petai wedi bod yn effeithiol i raddau mawr, lle'r oedd yr ASG wedi ei weithredu'n llwyddiannus, roedd yn tueddu i ddibynnu ar lefelau uchel o ymwybyddiaeth ymysg darparwyr a staff gwybodus a hyderus i arwain y broses, gan adael bylchau sylweddol mewn mannau eraill. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru eisiau ystyried nifer o gamau a gweithredoedd i wella cynllun a gweithrediad yr ASG wrth symud ymlaen.

9.9 **Argymhelliad 1:** Efallai y bydd Llywodraeth Cymru eisiau adolygu'r arweiniad cyfredol ac ystyried addasiadau fel ei fod yn dangos yn fwy eglur pa bethau y gellir defnyddio'r ASG i'w hariannu. Yn arbennig, dylid bod yn fwy eglur ynglŷn â'r opsiwn i awdurdodau lleol ofyn am ariannu ychwanegol, a dylid rhannu gwybodaeth ynglŷn â sut i wneud achos busnes ar gyfer ceisio cynnydd yn nyraniad yr ariannau.

9.10 **Argymhelliad 2:** Roedd y lefelau amrywiol o ymwybyddiaeth am yr ASG ymysg darparwyr a theuluoedd yn achosi risg bod yna rieni sydd efallai'n gymwys i gael yr ASG ond nad ydynt yn sicrhau gofal plant am na allent fforddio'r cymorth ychwanegol y mae eu plentyn ei angen a dydyn nhw ddim yn gwybod am yr ASG na'r gofyniad i'r awdurdod lleol dalu costau'r cymorth ychwanegol i blant gydag ADY. Yn ogystal, gallai rhai plant sydd angen cymorth ychwanegol ond nad ydynt yn sicrhau arian ASG gael trafferthion yn amgylchedd y lleoliad gofal plant, a gall hyn effeithio ar eu lles, eu perthynas gyda'u cyfoedion a pha mor barod ydyn nhw i

ddechrau'r ysgol. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu ymgyrchoedd cyfathrebu a gwybodaeth ar y cyd i ddarparwyr a theuluoedd er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gymwys ac sydd angen cymorth ASG yn gallu cael gafael arno.

9.11 **Argymhelliad 3:** Yn ymwneud â'r broblem o lefelau amrywiol o ymwybyddiaeth, dylid rhoi ystyriaeth arbennig i godi ymwybyddiaeth gwarchodwyr plant a lleoliadau bach nas cynhelir. Canfu'r ymchwil bod y lleoliadau hyn yn wynebu heriau arbennig gydag adnoddau wrth edrych ar ôl plant gydag ADY, ac mewn llawer o achosion roedd hyn yn golygu eu bod yn teimlo nad oedden nhw'n gallu cynnig lle i blentyn gyda lefelau uwch o angen, er y gallai ariannu ASG bontio'r bwlch hwnnw.

9.12 **Argymhelliad 4:** Canfu'r ymchwil bod awdurdodau lleol a darparwyr yn tueddu i ymdrin ag anghenion cymorth yn adweithiol, gan ddechrau ystyried anghenion cymorth a pha gymorth y gellir ei ddarparu dim ond pan mae'r plentyn yn cael gofal plant yn barod. Dywedodd darparwyr eu bod yn aros i'r broses ymgeisio gwblhau ac i'r ariannu gael ei ddyfarnu, ond yn y cyfamser gellid gweld oedi yn narpariad y cymorth y mae plentyn ei angen er mwyn mynychu'r lleoliad. Yn rhannol, y rheswm am yr oedi hwn yw bod yn rhaid i'r plentyn fod yn gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant yn gyntaf cyn y gellir gwneud cais am gyllido ASG. Fodd bynnag, gellid lleihau'r oedi os byddai asesiadau, trafodaethau a chynllunio'n digwydd cyn i'r plentyn gymhwyso ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, yn enwedig mewn achosion lle mae'r anghenion ychwanegol yn hysbys o oedran iau. Gallai awdurdodau lleol weithio gyda darparwyr ymhob sector (blynyddoedd cynnar ac ysgolion) a theuluoedd i ganfod anghenion cymorth ychwanegol ar gam cynharach. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru eisiau ystyried ffyrdd o weithio gydag awdurdodau lleol i hyrwyddo cydweithio ar draws y sectorau a chyflwyno gwell cynllunio, yn cynnwys rhannu gwybodaeth yn well a chael gwell prosesau atgyfeirio.

9.13 **Argymhelliad 5:** Mae data cyfyngedig i'w gael am y nifer o blant a lleoliadau sy'n derbyn arian ASG. Mae hyn yn golygu bod y gwaith o reoli'r grant yn heriol ar y lefel genedlaethol ac mae'n golygu nad yw'n bosibl asesu canlyniadau'r grant a'i effeithiau ar y plant, y teuluoedd a'r sector yn fanwl gywir. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru eisiau ystyried datblygu a gweithredu proses a thempledi gweithdrefn gyson a systematig i gasglu gwybodaeth fwy gronynnog am reolaeth y grant ac i awdurdodau lleol adrodd amdanynt i Lywodraeth Cymru.

# Atodiad A – Arolwg o ddarparwyr gofal plant

## A Cyflwyniad

**Croeso i arolwg Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant ar gyfer darparwyr.**

**Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu IFF Research i gynnal rhaglen ymchwil ar y Grant Cymorth Ychwanegol (GCY). Mae'r GCY yn rhan o Gynnig Gofal Plant Cymru. Bydd eich ymatebion i'r arolwg hwn yn helpu i lywio cynlluniau a pholisïau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Os ydych wedi darparu gofal plant wedi'i ariannu gan Gynnig Gofal Plant Cymru, gofynnir i chi ateb cwestiynau am eich barn a'ch profiadau o ddarparu gofal plant i blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac unrhyw brofiadau sydd gennych gydag GCY.**

**Bydd yr arolwg yn cymryd tua 15 i 20 munud i'w gwblhau. Mae cymryd rhan yn yr arolwg yn wirfoddol. Mae rhagor o wybodaeth am eich data a'ch hawliau ar gael yn y hwn. Os hoffech dderbyn rhagor o wybodaeth am yr ymchwil, cysylltwch â additionalsupportgrant.research@iffresearch.com**

**Sut cawsoch chi fy ngwybodaeth?**

Mae Llywodraeth Cymru yn cadw eich manylion oherwydd gwnaethoch eu darparu wnaethoch gais i gyflwyno Cynnig Gofal Plant Cymru.

**Sut bydd fy nata yn cael ei storio a'i brosesu?**

I gael rhagor o wybodaeth am sut y caiff eich data ei storio a'i brosesu, gweler y <a href='https://www.iffresearch.com/ic/docz/12591/CPPrivacyNotice.htm' target='_blank'>hysbysiad preifatrwydd </a>ar gyfer yr arolwg.

**Os rhaid i mi cymryd rhan?**

Mae eich cyfranogiad yn yr arowg hwn yn wirfoddol ac os nad ydych yn dymuno cymryd rhan neu gael nodyn atgoffa, yna atebwch yr e-bost gwahoddiad a bydd eich manylion yn cael eu dileu. Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn cymryd rhan gan y bydd hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i wneud unrhyw newidiadau sydd eu hanged i'r GCY.

**Â phwy y gallaf gysylltu i gael gwybod mwy?**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymchwil hwn, anfonwch e-bost atom ar <a href= ‘additionalsupportgrant.research@iffresearch.com'>additionalsupportgrant.research@iffresearch.com</a>.Os hoffech wirio natur ddilys yr arolwg hwn, cystyllwch â…

**Os ydych yn hapus i barhau, pwyswch 'nesaf'**

**Ar gyfer yr ymchwil hwn, nid oes gennym ddiddordeb ond mewn clywed barn y darparwyr gofal plant yng Nghymru sydd wedi darparu unrhyw ofal plant a ariennir gan Gynnig Gofal Plant Cymru.**

I gael gwybod mwy am Gynnig Gofal Plant Cymru, y Grant Cymorth Ychwanegol, sut i gael gafael arno, a sut y gellir ei ddefnyddio, gweler y <a href='https://www.gov.wales/childcare-offer-wales-

guidance-local-authorities'>ddogfen ganllaw. Am y cyfieithiad Cymraeg o'r ddogfen hon, gweler <a href='https://www.llyw.cymru/y-cynnig-gofal-plant-i-gymru-canllawiau-i-awdurdodau-lleol'>Y cynnig gofal plant i Gymru: canllawiau i awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU.

Diolch am eich aswer.

Yn gyntaf, hoffech gwblhau'r arolwg hwn yn Gymraeg neu yn Saesneg?

GOFYN I BAWB

A1 **Yn gyntaf, hoffech gwblhau'r arolwg hwn yn Gymraeg neu yn Saesneg?**

*UN ATEB*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymraeg | 1 | Continue in Welsh | |
| Saesneg | 2 | Continue in English | |

